# Cyd-ddatganiad ar Bysgodfeydd

Tachwedd 2022

Department for Environment Food & Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

The Scottish Government
Riaghaltas na h-Alba

Department of Agriculture, Environment and Rural Affairs
www.daera-ni.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2022

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0. I weld y drwydded, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Os ydym wedi nodi bod hawlfraint unrhyw wybodaeth yn eiddo i drydydd parti, bydd angen ichi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yma: https://consult.defra.gov.uk/sustainability-devolution-and-legislation-team/jfs.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y cyhoeddiad hwn, cysylltwch â: jfs@defra.gov.uk

## Cynnwys

Crynodeb Gweithredol ....... 6

Pam Cyd-ddatganiad ar Bysgodfeydd? ....... 6

Pam mae pysgota'n bwysig? ....... 6

Pam mae'r berthynas rhwng pysgota a'r amgylchedd yn bwysig? ....... 6

Beth yw polisïau'r JFS? ....... 7

Pam Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd? ....... 7

Sut y byddwn yn mesur cynnydd? ....... 8

Cyflwyniad ....... 9

Pwysigrwydd pysgota i holl wledydd y DU ....... 10

Y Fframwaith Pysgodfeydd ....... 10

Cytundebau Cenedlaethol a Rhyngwladol ....... 11

Protocol Gogledd Iwerddon ....... 11

Cwmpas y JFS ....... 12

Effaith y JFS a'r FMPs ....... 12

Atebolrwydd ....... 13

1. Ein huchelgais cytûn ....... 13

2. Amcanion ar gyfer Pysgodfeydd ....... 14

2.1 Dehongli'r Amcanion ....... 14

2.2 Cymhwyso'r Amcanion ....... 19

2.3 Amcanion fesul Maes Polisi ....... 20

3 Rhoi'r JFS ar waith ....... 23

3.1 Egwyddorion ....... 23

3.2 Gwyddoniaeth a Thystiolaeth ....... 23

3.3 Gweithio mewn Partneriaeth ....... 26

3.4 Gwneud Penderfyniadau Cyfranogol ....... 27

3.5 Y Broses Adrodd ac Adolygu ....................27
3.6 Monitro ....................28
4 Rheoli Pysgodfeydd yn Gynaliadwy ....................28
4.1 Sut ydym yn Rheoli Pysgodfeydd ....................28
4.2 Cyflawni'r Amcanion Pysgodfeydd trwy'n Polisïau ....................31
4.2.1 Cyfleoedd Pysgota ....................31
4.2.2 Stociau heb Gwota ....................37
4.2.3 Cysylltiadau Rhyngwladol Ehangach ....................37
4.2.4 Capasiti Pysgota ....................38
4.2.5 Hawl i bysgota yn nyfroedd y DU ....................38
4.2.6. Monitro Pysgodfeydd a Gorfodi ....................39
4.2.7 Pysgota Anghyfreithlon, heb ei Gofnodi a heb ei Reoleiddio ....................40
4.2.8 Lleihau Sgil-ddalfeydd ac Osgoi Dal Rhywogaethau Sensitif ....................40
4.2.9 Dadleoli ....................42
4.2.10 Cynllunio Gofodol Morol ....................42
4.2.11 Ardaloedd Morol Gwarchodedig (AMG) ....................43
4.2.12 Sbwriel Môr ac Offer pysgota sydd wedi dod i ddiwedd ei oes ....................43
4.2.13 Dyfroedd Arfordirol a Dyfroedd Croyw ....................44
4.2.14 Newid Hinsawdd ....................44
4.2.15 Dyframaethu ....................46
4.2.16 Pysgota Hamdden yn y Môr ....................46
4.2.17 Cynhyrchu, Marchnata a Bwyta Bwyd Môr ....................47
5. Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd ....................50
5.1 Cyflwyniad ....................50
5.2 Beth yw Cynllun Rheoli Pysgodfa? ....................50
5.3 Penderfynu pa stociau i'w cynnwys mewn FMP ....................51

5.4 Perthynas FMPs â’r Amcanion Pysgodfeydd....................................................53

5.5 Perthynas rhwng FMPs a’r Cynlluniau Rheoli Presennol ....................................53

5.6 Asesu Pysgodfeydd Cynaliadwy...........................................................................54

5.7 Monitro ac Adolygu FMPs.......................................................................................54

Atodiad A: Rhestr o’r Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd sydd yn yr arfaeth.......................56

Atodiad B: Geirfa ...............................................................................................................62

# Crynodeb Gweithredol

## Pam Cyd-ddatganiad ar Bysgodfeydd?

Mae awdurdodau polisi pysgodfeydd y DU wedi cydweithio i lunio Cyd-Ddatganiad ar Bysgodfeydd (JFS), yn unol â’r gofyn cyfreithiol yn adran 2 o Ddeddf Pysgodfeydd 2020 (y Ddeddf). Mae'r JFS yn nodi polisïau'r awdurdodau polisi pysgodfeydd ar gyfer cyflawni, neu gyfrannu at gyflawni, wyth amcan y Ddeddf ar gyfer pysgodfeydd ac mae'n rhan o Fframwaith Rheoli a Chefnogi Pysgodfeydd y DU (y Fframwaith Pysgodfeydd). Mae'r JFS yn nodi uchelgais y DU i barhau i reoli pysgodfeydd yn gynaliadwy at safon byd, yn unol â’r amcanion hyn a sut y bydd yn gwneud hynny.

Mae'r JFS yn diffinio sut mae'r awdurdodau polisi pysgodfeydd wedi deall yr amcanion ar gyfer pysgodfeydd a sut y byddan nhw’n cael eu troi’n bolisïau. Rydym hefyd wedi nodi drwy'r ddogfen yr amcanion sy’n berthnasol i bolisi penodol. Dylech nodi, oherwydd natur ryng-gysylltiedig yr amcanion, y bydd un polisi yn aml yn dod o sawl amcan.

## Pam mae pysgota'n bwysig?

Mae'r stociau pysgod o amgylch arfordir y DU yn adnodd cyhoeddus ac yn ased cenedlaethol, ac mae'r JFS yn nodi sut y bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn sicrhau eu bod yn parhau i ddod â budd i gymunedau pysgota a'r gadwyn cyflenwi bwyd môr ar draws yr DU, yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r diwydiant pysgota yn sylfaen i ffyniant cymunedau arfordirol ledled y DU, ac yn cyfrannu'n sylweddol ato. Mae'r diwydiant yn falch ei fod yn darparu cyfleoedd gwaith gwerthfawr mewn ardaloedd sydd fel arall yn ddiarffordd, ac yn darparu bwyd iach a chynaliadwy i'r DU gyfan. Mae ein stociau pysgod masnachol yn rhan annatod o ecosystemau morol iach ac yn gefn i weithgareddau hamdden. Mae gan ein cynnyrch bwyd môr domestig ei ran i’w chwarae hefyd wrth sicrhau cyflenwadau bwyd y DU, gan ein helpu fel gwlad i wrthsefyll effeithiau byd ansicr

## Pam mae’r berthynas rhwng pysgota a’r amgylchedd yn bwysig?

Mae sector bwyd môr bywiog a llewyrchus, sy'n cynnal cymunedau arfordirol ffyniannus, yn dibynnu ar amgylchedd morol iach a chydnerth. Mae pysgodfeydd yn dibynnu ar yr ecosystemau y maent yn gweithredu ynddynt, a gall yr ecosystemau hyn gael eu peryglu gan bwysau o du pobl, gan gynnwys pysgota a gall bygythiadau amgylcheddol fel y newid yn yr hinsawdd effeithio arnyn nhw. I wireddu gweledigaeth y DU a ddisgrifir yn y Datganiad Polisi Morol (UKMPS) o “cefnforoedd a moroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol a bioamrywiol’ a sicrhau bod gan y DU bysgodfeydd a dyframaeth tymor hir, cynaliadwy a phroffidiol, mae’n bwysig rheoli’r pwysau a’r bygythiadau amgylcheddol hyn.

## Beth yw polisïau'r JFS?

Mae'r JFS yn cydnabod pwysigrwydd pysgota, pysgota môr hamdden a dyframaethu i'r DU ac i lawer o'n cymunedau arfordirol. Mae'n tanlinellu hefyd bwysigrwydd gweithio gyda'r sectorau dal a phrosesu ynghyd â'u cadwyni cyflenwi, ar gynlluniau olyniaeth, hyfforddiant, mynediad i lafur domestig, a thâl teg i annog newydd-ddyfodiaid. Mae'r awdurdodau polisi pysgodfeydd yn ymrwymo i annog pobl i fwyta bwyd môr lleol fel ffynhonnell protein iach o ansawdd uchel, ac i gefnogi marchnadoedd ffyniannus a chryf yn y DU a thu hwnt. Mae'r JFS hefyd yn ymrwymo'r awdurdodau polisi pysgodfeydd i ddiogelu iechyd, diogelwch a lles y rhai sy'n gweithio yn y sector bwyd môr, yn enwedig pan fyddan nhw ar y môr.

Mae'r JFS yn disgrifio sut y bydd y DU yn cyflawni'r amcan o ran y newid yn yr hinsawdd drwy nodi a chefnogi newidiadau i liniaru effeithiau newid hinsawdd ac addasu iddo, gan gynnwys lleihau allyriadau ar draws y diwydiant pysgota i gefnogi datgarboneiddio. Mae hefyd yn cydnabod pwysigrwydd diogelu ac adfer cynefinoedd carbon glas i gefnogi'r gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd, gan sicrhau ymrwymiad i weithio gyda'r gymuned wyddonol i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth.

Mae'r JFS yn cydnabod bod amgylchedd morol iach a chydnerth yn hanfodol ar gyfer sector bwyd môr llewyrchus a chymunedau arfordirol ffyniannus, a bod defnydd cynaliadwy o'r môr a'i gadwraeth yn ganolog i'n dull o reoli pysgodfeydd. Mae'n ymrwymo i weithio gyda'r diwydiant i leihau'r sgil-ddalfa a lle medrir, ei osgoi'n llwyr ac i beidio â rhwydo rhywogaethau sensitif. Bydd hefyd yn llywio ein gwaith rhyngwladol i sicrhau ein bod yn arweinwyr byd-eang ym maes rheoli pysgodfeydd cynaliadwy rhyngwladol.

## Pam Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd?

Mae Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd (FMPs) yn rhan allweddol o ymrwymiad awdurdodau'r DU i bysgota cynaliadwy. Mae'r JFS yn nodi diben cyffredinol FMPs, gan gynnwys eu cysylltiad â'r amcanion a nodir yn y Ddeddf ar gyfer pysgodfeydd a'r Fframwaith Pysgodfeydd ehangach, ynghyd â'r cynlluniau y bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn eu cyhoeddi.

Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn cyhoeddi FMPs unigol ar y cyd ar gyfer y stociau hynny sydd o bwys cymdeithasol ac economaidd, sydd mewn perygl o gael eu gorbysgota ac sy'n bwysig i'r ecosystem. Bydd pob awdurdod polisi pysgodfeydd yn ystyried a ddylai gyflwyno ei FMPs ei hun i reoli gweithgarwch pysgota o fewn ei ddalgylch neu a fyddai'n well cydweithio ag awdurdod polisi pysgodfeydd arall lle bo hynny'n briodol.

Bydd FMPs yn ymdrin yn benodol â sut i reoli stociau'n gynaliadwy. Ond gellid estyn hyd a lled FMP er mwyn ystyried agweddau eraill ar reoli pysgodfeydd sy'n cwmpasu pryderon amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd.

## Sut y byddwn yn mesur cynnydd?

Yn unol â'r Ddeddf, bydd y JFS yn parhau’n weithredol nes y bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn ei adolygu ac yn credu bod angen ei ddiwygio neu ei ddiweddaru. Caiff ei adolygu o leiaf bob 6 blynedd (o ddyddiad ei gyhoeddi).

Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn cyhoeddi adroddiad bob tair blynedd ar i ba raddau y mae'r polisïau a nodir yn y JFS wedi'u rhoi ar waith ac wedi cyflawni neu gyfrannu at gyflawni'r amcanion pysgodfeydd. Bydd yr adroddiad yn pwyso a mesur hefyd i ba raddau y mae'r polisïau mewn FMP perthnasol wedi'u cyflawni ac wedi effeithio ar lefelau stociau pysgod.

# Cyflwyniad

Mae sector bwyd môr y DU yn rhan bwysig o economi cymunedau arfordirol ac mae ganddo dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog. O'r sector y daw ymdeimlad y cymunedau hynny o le ac o berthyn. Mae perthynas y DU â'r môr yn destun dathlu, a theg hynny. Ar hyd yr arfordir, o'r porthladd mwyaf i'r cei lleiaf, mae pysgotwyr, cymunedau pysgota a'r sector dyframaethu[1] yn ymfalchïo eu bod yn darparu cynnyrch cynaliadwy o ansawdd uchel sy'n cyfrannu at ddiogelu cyflenwadau bwyd. Hefyd, mae'r DU yn adnabyddus am ei buddsoddiad mewn gwyddor pysgodfeydd, nid yn unig ar gyfer asesu iechyd stociau pysgod ac ecosystemau, ond hefyd i ddatblygu ac addasu ei dulliau pysgota a defnyddio technolegau newydd – rhywbeth pwysicach nag erioed o ystyried yr angen i fynd i'r afael â heriau hinsawdd sy'n newid. Yn y cyfnod hwn o newid, bydd y DU yn parhau i werthfawrogi pwysigrwydd y diwydiant pysgota, gan gynnwys ei ddibenion hamddena, i'w chymunedau arfordirol niferus a bydd yn darparu diwydiant pysgota ffyniannus ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol tra'n diogelu, adfer a gwella'r amgylchedd morol y mae'r diwydiant a'r gymdeithas ehangach yn dibynnu arno.

Mae ein pysgodfeydd yn wynebu llawer o heriau a chyfleoedd a bydd angen i bedair Gweinyddiaeth y DU gydweithio arnynt. Mae'n hanfodol ein bod yn parhau i adfer stociau pysgod, lleihau effeithiau amgylcheddol pysgota, a lleihau'r effeithiau andwyol ar y newid yn yr hinsawdd a helpu i addasu iddo er mwyn sicrhau sector bwyd môr bywiog sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Mae annog pobl i fwyta bwyd môr lleol fel ffynhonnell protein da ac iach a chynnal marchnadoedd llewyrchus a chydnerth yn y DU a thu hwnt yn allweddol ar gyfer diogelu cyflenwadau bwyd. Mae sicrhau pysgodfeydd a dyframaeth cynaliadwy yn hanfodol er mwyn gwireddu gweledigaeth y DU o gefnforoedd a moroedd 'glân, iach, diogel, cynhyrchiol a bioamrywiol'[2].

Mae pysgod môr yn adnodd cyhoeddus. A ninnau wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd (UE), mae gan Weinyddiaethau'r DU gyfrifoldeb i reoli eu pysgodfeydd gyda golwg ar ofalu amdanynt yn gynaliadwy mewn ffordd sy'n cydnabod anghenion penodol ein diwydiant bwyd môr amrywiol a'n hamgylchedd morol.

Mae [Deddf Pysgodfeydd 2020](#) (y Ddeddf) yn nodi wyth amcan ar gyfer pysgodfeydd. Bydd awdurdodau polisi pysgodfeydd (yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion yr Alban, Gweinidogion Cymru ac Adran Amaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon) yn rheoli'u pysgodfeydd ar sail yr amcanion hynny. Mae'r JFS hwn yn nodi y polisïau, y penderfynwyd arnynt trwy gytundeb yr awdurdodau polisi pysgodfeydd, ar reoli pysgodfeydd môr (dal a phrosesu), pysgota hamdden ar y môr, a dyframaethu, er mwyn cyflawni, neu gyfrannu at gyflawni, yr amcanion ar gyfer pysgodfeydd. Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn ystyried y polisïau hyn, ynghyd â'r amcanion ar gyfer

[1] Gall dyframaethu ddigwydd ar y glannau ac yn y môr mawr a gellir ei rannu'n fras yn ôl y math o ddŵr (morol neu ddŵr croyw), rhywogaeth (pysgod, pysgod cregyn neu blanhigion) neu ddwysedd (dwys, lled-ddwys a heb fod yn ddwys).

[2] Datganiad Polisi Morol y DU (https://www.gov.uk/government/publications/uk-marine-policy-statement)

pysgodfeydd, wrth iddynt ddatblygu’u polisïau eu hunain. Efallai y bydd gan awdurdodau polisi pysgodfeydd unigol strategaethau a dogfennau polisi datganoledig, fydd eisoes yn adlewyrchu polisïau yn y JFS, ac felly'r amcanion ar gyfer pysgodfeydd.

Mae’r awdurdodau polisi pysgodfeydd wedi paratoi a chyhoeddi'r JFS hwn ar y cyd yn unol â dibenion y Ddeddf. Fel awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol, mae'n ofynnol iddynt hwy, a'r Sefydliad Rheoli Morol (MMO), arfer eu swyddogaethau yn unol â'r polisïau yn y JFS a'r FMPs perthnasol, ac ag adran 10 o'r Ddeddf.

## Pwysigrwydd pysgota i holl wledydd y DU

Mae'r sectorau pysgota a dyframaethu yn y DU yn cynnal cadwyn gyflenwi amrywiol sy’n cynnwys dal a phrosesu pysgod a chludo, llwytho a dadlwytho pysgod a chynhyrchion pysgod.

Yn y diwydiant dal, mae pysgodfeydd masnachol y DU yn amrywio o gychod pelagig mawr sy'n gallu dal cannoedd o dunelli o bysgod mewn un rhwydiad, i gychod pysgota bach yn y glannau a helwyr pysgod cregyn rhwng y ddau lanw. Mae dulliau rheoli a mesurau rheoli penodol yn gallu amrywio ar draws y DU ac yn nyfroedd y glannau a’r môr mawr. Mae fflyd pob gwlad yn amrywio'n fawr, ac mae pysgota'n bwysig o ran cynnal rhai cymunedau arfordirol bregus a’u porthladdoedd a harbyrau.

Mae pysgota môr hamdden hefyd yn fath poblogaidd o bysgota yn y DU ac, fel pysgota masnachol, mae'n esgor ar fuddiannau economaidd a chymdeithasol pwysig.

Fel un o sectorau cynhyrchu bwyd strategol y DU, mae dyframaethu yn helpu twf economaidd cynaliadwy mewn cymunedau gwledig ac arfordirol ac yn yr economi ehangach. Mae polisi dyframaethu wedi'i ddatganoli'n llwyr yn y DU ac felly mae pob un o'r awdurdodau polisi pysgodfeydd yn gweithredu o dan ddeddfwriaeth a pholisïau datganoledig.

Mae'r sector prosesu ac allforio bwyd môr yn gyflogwr arwyddocaol lleol yn y DU. Mae'n cynnwys prosesu sylfaenol (fel ffiledu a rhewi) a phrosesu eilaidd (fel rhannu, pacio, cochi a gorchuddio mewn briwsion), yn ogystal â chyfleusterau ar gyfer allforio pysgod heb eu prosesu. Ceir safleoedd prosesu bwyd môr ym mhob rhan o’r DU, yn amrywio o safleoedd bach i fusnesau prosesu mwy aml-safle, llawer ohonynt wedi'u clystyru mewn trefi rhanbarthol allweddol. Mae’r sector yn cynhyrchu ar gyfer y farchnad ddomestig a marchnadoedd rhyngwladol, gan ddibynnu ble rydych chi yn y DU. Mewn rhai rhannau o'r DU, mae pysgod yn cael eu hallforio hefyd fel nwyddau byw, heb eu prosesu, yn bennaf i farchnad yr UE. Mae bwyd môr wedi’i fewnforio, ynghyd â’r rhywogaethau a ddelir yn y DU, yn bwysig hefyd i’r sector prosesu pysgod gan gefnogi allbwn economaidd.

## Y Fframwaith Pysgodfeydd

Mae’r cyfrifoldeb am reoli pysgodfeydd yn y DU i raddau helaeth wedi'i ddatganoli. Mae'r JFS hwn yn rhan o Fframwaith Pysgodfeydd ehangach y DU. Mae'r Fframwaith

Pysgodfeydd yn nodi'r meysydd lle gellir rheoli pysgodfeydd ar y cyd ar lefel y DU, a'r ddeddfwriaeth, y polisïau a'r egwyddorion cydweithio ar lefel y DU ar gyfer gwneud hynny. Mae'r Fframwaith Pysgodfeydd yn cynnwys y Ddeddf a'r offerynnau statudol cysylltiedig, cyfraith berthnasol yr UE sydd wedi'i dargadw, y JFS, FMPs, a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar y Fframwaith Pysgodfeydd. Mae'r olaf yn nodi egwyddorion y ffyrdd o weithio a chydweithio ar reoli pysgodfeydd rhwng yr awdurdodau polisi pysgodfeydd.

Mae pob gwlad yn mynd ati yn ei ffordd ei hun i ddatblygu polisi, gan adlewyrchu natur ddatganoledig rheoli pysgodfeydd ledled y DU. Fodd bynnag, mae'r awdurdodau polisi pysgodfeydd trwy gydweithio a chydreoli ar sail y Fframwaith Pysgodfeydd, yn ceisio sicrhau canlyniadau cyffredin cytûn ond gan cydnabod eu hawl a'r angen i ddilyn eu polisïau eu hunain ac i barchu datganoli.

## Cytundebau Cenedlaethol a Rhyngwladol

Mae gofyn i'r awdurdodau polisi pysgodfeydd, wrth weithio yn unol â'r polisïau yn y JFS, roi ystyriaeth hefyd i ofynion deddfwriaeth genedlaethol ac ymrwymiadau y mae'r DU wedi'u gwneud o dan gytundebau a datganiadau rhyngwladol. Yn eu plith y mae y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng yr UE a'r DU, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig (CU) ar Gyfraith y Môr (UNCLOS), Amcanion Datblygu Cynaliadwy'r CU, Confensiwn y CU ar Fioamrywiaeth (CBD) gan gynnwys y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang, y Confensiwn ar y Fasnach Ryngwladol mewn Rhywogaethau mewn Perygl (CITES), a Chonfensiwn Gwarchod Amgylchedd Morol Gogledd-ddwyrain Cefnfor Iwerydd (OSPAR). Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn nodi hefyd yr ymrwymiadau a ddaw o fod yn aelod o'r Cyrff Rheoli Pysgodfeydd Rhanbarthol (RFMOs).

A'r DU bellach wedi gadael yr UE, mae'r TCA yn cynnwys darpariaethau sy'n deillio o'r trafodaethau blynyddol ar gyfleoedd pysgota a mynediad i ddyfroedd ac mae'n sefydlu Pwyllgor Arbenigol ar Bysgodfeydd (SCF) rhwng yr UE a'r DU i hwyluso cydweithredu ar reoli pysgodfeydd. Mae'r cytundeb yn cydnabod rhyddid y DU i benderfynu ar y rheolau ar gyfer rheoli pysgodfeydd yn nyfroedd y DU.

Mae Rheoliadau Strategaeth Forol 2010 (OS 2010/1627) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff pysgodfeydd yn y DU gymryd camau i sicrhau bod holl ddyfroedd y DU yn cyrraed neu'n cadw Statws Amgylcheddol Da (GES). Strategaeth Forol y DU (UKMS) yw un o bileri allweddol polisi morol y DU ac mae'r JFS yn fesur trawsbynciol a fydd yn helpu i sicrhau mewn pysgodfeydd masnachol yn cyrraedd statws GES. At hynny, bydd y JFS yn helpu i sicrhau nad yw arferion pysgota yn peryglu statws GES drwy effeithio ar elfennau eraill y GES fel bioamrywiaeth neu gyflwr gwely'r môr.

## Protocol Gogledd Iwerddon

Mae cydweithredu ar reoli pysgodfeydd ar draws yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn rhan o gyd-destun Protocol Gogledd Iwerddon/Iwerddon (y Protocol). Mae'r Protocol yn nodi'r trefniadau y cytunodd y DU a'r UE arnynt i ddelio â'r amgylchiadau unigryw ar ynys

Iwerddon ac a gyflwynwyd wrth i'r DU ymadael â'r UE. Mae Gogledd Iwerddon yn rhan o'r DU, gan gynnwys bod yn rhan o diriogaeth tollau'r DU, ond mae'r Protocol yn cymhwyso rhannau penodol o gyfraith yr UE i Ogledd Iwerddon rhag creu ffin galed (gweler Atodiad 2 y Protocol).

## Cwmpas y JFS

Mae'r JFS yn ymdrin â pholisi a rheoli pysgodfeydd môr o fewn dyfroedd y DU, ac wrth drafod â gwledydd arfordirol eraill. Bydd y JFS yn llywio hefyd sut y byddwn yn ymdrin â chytundebau rhyngwladol ac â ffora rhyngwladol.

Nid yw'n effeithio'n uniongyrchol ar Diriogaethau Tramor y DU nac ar Ddibyniaethau'r Goron[3]. Fodd bynnag, bydd polisïau o fewn y JFS yn effeithio ar sut y byddwn yn cydweithio â Dibyniaethau'r Goron i wireddu amcanion a nodau cyffredin er mwyn rheoli pysgodfeydd yn effeithiol yn yr ardaloedd dan sylw, gan gydnabod eu hannibyniaeth a'u rhyddid.  Bydd cytundebau newydd fydd yn cymryd lle'r Cytundebau Rheoli Pysgodfeydd presennol yn llywio unrhyw ymwneud yn y dyfodol.

Bydd angen i Awdurdodau Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau yn Lloegr yn rhoi ystyriaeth i'r Ddeddf, y JFS, a'r FMPs, lle gofynnir iddynt wneud hynny gan unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar sut i gyflawni eu swyddogaethau neu pan fyddant yn ymgymryd â swyddogaeth berthnasol a ddirprwyir iddynt gan yr MMO.

## Effaith y JFS a'r FMPs

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau polisi pysgodfeydd a'r MMO (yn eu rôl fel awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol, fel y'u diffinnir gan y Ddeddf), arfer eu swyddogaethau o ran pysgodfeydd, pysgota a dyframaethu yn unol â'r polisïau yn y JFS neu'r FMPs sy'n gymwys i'r awdurdod oni bai bod newid perthnasol yn yr amgylchiadau yn gofyn fel arall[4].

Mae newidiadau perthnasol yn yr amgylchiadau yn cynnwys (yn benodol) newidiadau o ran —

- Rhwymedigaethau rhyngwladol y DU;
- Pethau a wnaed (neu sydd heb eu gwneud) gan lywodraeth gwlad y tu allan i'r DU sy'n effeithio ar yr amgylchedd morol a dyfrol;
- Y dystiolaeth wyddonol sydd ar gael; neu

[3] Dibyniaethau'r Goron yw Ynys Manaw, Jersey a Guernsey.
[4] Deddf Pysgodfeydd 2020 adran 10

- Y dystiolaeth sy’n bod sy'n ymwneud ag elfennau cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol datblygu cynaliadwy.

Mae’n bolisi gan bob awdurdod polisi pysgodfeydd na wneir unrhyw newid ar chwarae bach. Esbonnir a chyhoeddir y rhesymau dros wyro oddi wrth bolisïau yn y JFS hwn neu FMPs mewn unrhyw benderfyniad[5].

## Atebolrwydd

Bydd polisïau a nodir yn y JFS hwn yn cael eu rhoi ar waith a'u gwerthuso drwy drefniadau arferol yr awdurdodau polisi pysgodfeydd perthnasol ac unrhyw fecanweithiau goruchwylio cenedlaethol perthnasol, a thrwy brosesau'r Fframwaith Pysgodfeydd os oes angen.

# 1. Ein huchelgais cytûn

1.1 Ein huchelgais yw sicrhau bod ein pysgodfeydd môr a dyframaeth ledled y DU yn cael eu rheoli’n gynaliadwy at safon byd, a chwarae ein rhan i gefnogi'r gwaith o gyflawni hynny drwy’r byd.

1.2 Fel rhan o fod yn wlad arfordirol annibynnol, bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi sector pysgota a dyframaethu bywiog, proffidiol a chynaliadwy, gydag amgylchedd morol iach sy'n gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd yn sail iddo.

1.3 Ein nod yw gwireddu'r uchelgais hwn drwy dri phrif faes:

- **Diogelu a lle bo angen, adfer ein stociau pysgod.**

  Mae pysgod gwyllt yn adnodd naturiol cyhoeddus ac yn dod â buddiannau mawr i'r DU, fel ffynhonnell bwyd a gwaith, drwy ddarparu gwasanaethau ecosystem a manteision cymdeithasol a lles. Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau bod stociau pysgod yn cael eu rheoli a, lle bo angen, yn cael eu hadfer er lles ehangach pawb, gan sicrhau'r budd mwyaf posibl i gymunedau arfordirol. Byddwn yn parhau i weithio i wneud gwelliannau sylweddol yn statws stociau pysgod gwyllt y DU.

- **Lleihau effeithiau drwg pysgota ar yr amgylchedd morol ac arfordirol.**

  Rydym yn cydnabod bod diwydiant pysgota ffyniannus yn dibynnu ar amgylchedd morol iach a bod stociau iach yn stociau cydnerth. Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn sicrhau bod penderfyniadau polisi pysgodfeydd yn ystyried y berthynas hon, a bod hynny’n golygu rheoli pysgodfeydd ar sail ecosystemau. Gan ddefnyddio amrywiaeth o fesurau fel Ardaloedd Morol Gwarchodedig a mesurau technegol, byddwn yn lleihau effeithiau pysgota ar yr amgylchedd morol mewn

[5] Deddf Pysgodfeydd 2020 adrannau 7 (5) a 10 (2)

ffordd fydd yn ein helpu i wrthsefyll effeithiau’r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo.

- **Cefnogi diwydiant pysgota modern, cydnerth ac amgylcheddol gyfrifol**.

Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn gweithio gyda'i gilydd i gynnal diwydiant pysgota proffidiol a chydnerth. Byddwn yn eu helpu i ddatblygu cadwyni cyflenwi cadarn ymhellach, fflyd amrywiol, modern ac isel ei hallyriadau sydd â chyflenwadau ynni sicr, a gweithlu medrus a diogel. Wrth wneud, bydd y gweithlu, y fflyd a’r cadwyni cyflenwi yn cael eu cefnogi i ymateb yn gyflym ac ar y cyd i amodau cyfnewidiol y farchnad a’r amgylchedd a chyfleoedd newydd, tra'n cynnal pysgodfeydd cynaliadwy ac ecosystemau bioamrywiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, gan gyfrannu at ddiogelu cyflenwadau bwyd y DU.

Wrth i amgylchedd y môr newid, byddwn yn helpu ein diwydiannau pysgota a dyframaethu i addasu yn unol â hynny, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau’n economaidd hyfyw a lleihau effeithiau a allai gwanhau ecosystemau morol.

# 2. Amcanion ar gyfer Pysgodfeydd

Mae polisïau’r JFS yn seiliedig ar yr amcanion ar gyfer pysgodfeydd a nodir yn y Ddeddf. Gyda'i gilydd, maen nhw’n diffinio pysgota cynaliadwy, sy’n cynnwys dyframaethu, ac maen nhw wedi’u llunio i helpu'r awdurdodau polisi pysgodfeydd i gadw’r ddysgl yn wastad rhwng sector bwyd môr proffidiol a ffyniannus ac amgylchedd morol iach a chydnerth yn y tymor hir.

Mae'r amcanion ar gyfer pysgodfeydd yn ategu ei gilydd, a gall un polisi gyfrannu at gyflawni sawl amcan.

## 2.1 Dehongli’r Amcanion

2.1.1 **(1)** Yr **‘amcan cynaliadwyedd’** yw bod:

(a) gweithgareddau pysgota a dyframaethu yn—

(i) gynaliadwy o safbwynt amgylcheddol tymor hir, a’u

(ii) bod yn cael eu rheoli fel eu bod yn esgor ar fanteision economaidd, cymdeithasol a gwaith ac yn cyfrannu at y cyflenwadau bwyd sydd ar gael a

(b) capasiti pysgota’r fflyd bysgota yn golygu bod y fflyd yn economaidd hyfyw ond nad yw’n gorbysgota stociau morol.

2.1.2 Mae cynefinoedd a rhywogaethau morol ac arfordirol iach a chynaliadwy yn hanfodol i gynnal gweithgareddau pysgota a dyframaethu. Ystyr pysgota a dyframaeth cynaliadwy yw bod cydbwysedd priodol yn cael ei gynnal rhwng ystyriaethau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol wrth reoli ein

pysgodfeydd a dyframaeth er budd cenedlaethau heddiw ac yfory. Mae'n golygu sicrhau y gellir pysgota stociau pysgod, at ddibenion masnach a hamdden, yn awr ac yn y dyfodol. Wrth wneud hynny, bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn ystyried effeithiau tymor byr a hirdymor penderfyniadau ar stociau pysgod a'r diwydiant pysgota cyn gweithredu; ni ddylai penderfyniadau economaidd-gymdeithasol tymor byr beryglu iechyd hirdymor yr amgylchedd morol yn fawr. Bydd angen i'r penderfyniadau gydnabod pwysigrwydd diwylliannol pysgota drwy gynnal a lle medrir, cryfhau cymunedau a bywoliaethau arfordirol law yn llaw â'r gofyn bod stociau pysgod yn cyrraedd ac yn cadw at lefelau cynaliadwy.

2.1.3 I gadw’r ddysgl yn wastad, bydd awdurdodau polisi pysgodfeydd yn defnyddio’r dystiolaeth orau sydd ar gael wrth wneud penderfyniadau ynghylch rheoli pysgodfeydd.

2.1.4 Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn rhoi pwyslais ar adfer stociau a diogelu'r amgylchedd. Bydd angen gwneud hyn mewn modd sy'n sensitif i anghenion buddiannau pysgota, gan gynnwys cymunedau arfordirol, ac sy'n ystyried ffactorau amgylcheddol ehangach.

2.1.5 **(2)** Yr ‘**amcan rhagofalus’** yw bod —

(a) pysgodfeydd yn cael eu rheoli mewn modd rhagofalus, a

(b) bod stociau morol yn cael eu pysgota mewn modd sy’n adfer ac yn cynnal poblogaethau’r rhywogaethau a gynaeafir uwchlaw’r lefelau o fiomas sy’n gallu cynhyrchu’r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf.

2.1.6 Mae'r Ddeddf yn diffinio dull rhagofalus o reoli pysgodfeydd fel 'dull lle nad yw diffyg gwybodaeth wyddonol yn gyfiawnhad dros ohirio neu beidio â chymryd camau rheoli i warchod rhywogaethau targed, rhywogaethau cysylltiedig neu ddibynnol, rhywogaethau nad ydynt yn rhai targed neu eu hamgylchedd'.

2.1.7 I gefnogi’r amcan rhagofalus, bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn rhoi sylw penodol i sicrhau na ddefnyddir y gofyn am dystiolaeth ychwanegol i osgoi neu arafu penderfyniadau rheoli anodd.

2.1.8 Mae'r Ddeddf yn diffinio Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf (MSY) fel 'y cynnyrch cytbwys damcaniaethol uchaf y gellir ei gymryd yn barhaus ar gyfartaledd o stoc forol o dan amodau amgylcheddol presennol heb effeithio'n sylweddol ar y broses atgenhedlu’.

2.1.9 Mae'r amcan o gynnal lefelau biomas uwchlaw lefelau sy'n gallu cynhyrchu MSY yn offeryn gwerthfawr i awdurdodau polisi pysgodfeydd allu asesu a rheoli statws stociau pysgod. Fodd bynnag, mae asesiadau MSY yn gofyn am lawer o ddata sy'n golygu mai ond ychydig o stociau y gellir eu hasesu ar ei sail. Yn y JFS, cyfeirir at MSY neu at ddefnyddio procsïau addas yn unol â’r amcan

rhagofalus. Er enghraifft, ar gyfer y Gwainbysgodyn yn Ngogledd-ddwyrain Cefnfor Iwerydd, defnyddir mynegai niferoedd i bennu maint y ddalfa. Bydd defnyddio'r procsïau addas hyn ochr yn ochr â'r MSY i asesu cyflwr stociau a llywio penderfyniadau rheoli yn helpu i wella cynaliadwyedd nifer fwy o stociau.

2.1.10 **(3)** Yr **'amcan ecosystem'** yw bod —

(a) pysgod a gweithgareddau dyframaethu'n cael eu rheoli ar sail ecosystem er mwyn sicrhau bod yr effeithiau negyddol ar ecosystemau'r môr yn cael eu cadw mor fach â phosibl a lle bo'n bosibl, eu gwyrdroi, a

(b) bod cyn lleied o rywogaethau sensitif yn cael eu dal trwy ddamwain â phosibl a lle gellir, bod hynny'n cael ei osgoi'n llwyr.

2.1.11 Mae dull rheoli ar sail ecosystem yn cael ei ddiffinio yn y Ddeddf fel 'dull sydd (a) yn sicrhau bod pwysau cyfunol gweithgareddau dynol yn cael ei gadw o fewn lefelau sy'n gydnaws â chyrraedd GES o fewn ystyr Rheoliadau Strategaeth Forol 2010, a (b) nad yw'n peryglu gallu ecosystemau morol i ymateb i newidiadau a ysgogir gan bobl.'

2.1.12 Mae ein sectorau pysgota a dyframaethu'n gweithredu o fewn ac yn dibynnu ar amgylchedd morol o ansawdd uchel. Rydym yn deall bod myrdd o ryngweithiadau gwahanol yn digwydd o o fewn amgylchedd y môr a bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn gweithio gyda'i gilydd i ddod i ddeall sut y maent yn dylanwadau ar benderfyniadau rheoli.

2.1.13 Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn cyflawni, neu'n cyfrannu at gyflawni, yr amcan ecosystem a'r GES drwy drefniadau rheoli sy'n cynnal neu, lle bo angen, yn adfer, diogelu a gwella iechyd ecosystemau morol. Nod y trefniadau rheoli hyn fydd lleihau effeithiau pysgota ar yr amgylchedd y tu hwnt i'r stociau unigol, megis cynefinoedd gwely'r môr a thrwy sgil-ddalfa ar rywogaethau sensitif a rhywogaethau nad ydynt yn darged, ond gan ganiatáu defnydd priodol gan bobl o'n moroedd er budd cenedlaethau heddiw ac yfory.

2.1.14 **(4) 'Amcan y dystiolaeth wyddonol'** yw bod —

(a) data gwyddonol am weithgareddau rheoli pysgod a dyframaethu yn cael eu casglu,

(b) awdurdodau polisi pysgodfeydd yn gweithio gyda'i gilydd yn ôl y gofyn i gasglu a rhannu data gwyddonol o'r fath, a bod

(c) gweithgareddau rheoli pysgod a dyframaethu'n seiliedig ar y cyngor gwyddonol gorau sydd ar gael.

2.1.15 Mae amcan y dystiolaeth wyddonol yn golygu y bydd awdurdodau polisi pysgodfeydd bob amser yn rheoli ar sail tystiolaeth ac yn gwneud defnydd llawn

o'r cyngor gwyddonol gorau sydd ar gael i'w helpu i wneud penderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys gwella ein dealltwriaeth gyfunol o sut mae pysgota a dyframaethu yn effeithio ar yr amgylchedd morol law yn llaw â sectorau a gweithgareddau morol eraill. Gan fod pysgodfeydd yn bwnc datganoledig, bydd awdurdodau polisi pysgodfeydd yn parhau i weithio gyda'i gilydd i gynhyrchu'r dystiolaeth hon.

2.1.16 **(5)** Yr **'amcan o ran sgil-ddalfa'** yw —

(a) lleihau'r sgil-ddalfa bysgod sydd o dan y maint cyfeirio cadwraethol lleiaf a sgil-ddalfa arall ddiangen, neu osgoi'r sgil-ddalfa honno'n llwyr,

(b) bod dalfeydd yn cael eu cofnodi a bod cyfrifi amdanynt, a

(c) bod y sgil-ddalfa bysgod yn cael ei glanio, ond dim ond lle bo hynny'n briodol ac yn arbennig, cyn belled nad yw'n cymell pysgotwyr i ddal pysgod sydd o dan y maint cyfeirio cadwraethol lleiaf.

2.1.17 Mae'r 'amcan o ran y sgil-ddalfa' yn anelu at osgoi dal pysgod na fwriedir eu dal neu sy'n llai na'r maint cyfeirio cadwraethol lleiaf neu at ddal llai ohonynt. Mae'r awdurdodau polisi pysgodfeydd wedi ymrwymo i roi terfyn ar yr arfer gwastraffus o daflu pysgod yn ôl i'r môr a chynyddu'r atebolrwydd am weithgareddau pysgota yn y môr, gan ennyn hyder yn ein bwyd môr.

2.1.18 Mae'r awdurdodau polisi pysgodfeydd wedi ymrwymo i sicrhau bod cofnod o bob dalfa bysgod a bod pob dalfa bysgod sydd o dan amodau'r Cyfanswm y Ddalfa a Ganiateir (TAC), o ddewis yn cael ei glanio, oni bai:

- Bod tystiolaeth gref y gall y pysgod oroesi'r broses o'u dal neu
- Bod terfyn ar ddefnyddio mesurau lliniaru neu
- Ei bod yn costio gormod i gael gwared ar y pysgod sy'n cael eu ganio.

2.1.19 **(6)** Yr **'amcan mynediad cyfartal'** yw na effeithir ar hawl cychod pysgota'r DU i fynd i unrhyw ardal o fewn terfynau pysgota Prydain gan -

(a) leoliad porthladd cartref y cwch pysgota, nac

(b) unrhyw rai eraill o gysylltiadau'r cwch pysgota neu ei berchennog, ag unrhyw le yn y Deyrnas Unedig.

2.1.20 Mae'r awdurdodau polisi pysgodfeydd yn cydnabod bod gan yr holl gychod sydd wedi'u cofrestru a'u trwyddedu yn y DU yr un hawl â'i gilydd i bysgota yn nyfroedd y DU. Ar sail hynny, mae'r amcan mynediad cyfartal yn golygu na fydd unrhyw awdurdod polisi pysgodfeydd yn rhoi unrhyw fesurau ar waith i gyfyngu ar hawl unrhyw gwch sydd wedi'i drwyddedu yn y DU i fynd i unrhyw ran o ddyfroedd y DU oherwydd porthladd cartref y cwch.

2.1.21 Mae gosod cyfyngiadau ar hawl cwch i bysgota yn arf allweddol i'r awdurdodau polisi pysgodfeydd, ond bydd pob cyfyngiad o'r fath yn seiliedig ar feini prawf gwrthrychol ac ar yr angen i ddiogelu stociau a'r amgylchedd morol. Yn gyfnewid am hynny, bydd cychod yn cadw at y rheolau a bennir gan awdurdod polisi pysgodfeydd y dyfroedd y maen nhw'n pysgota ynddyn nhw.

2.1.22 **(7)** Yr **'amcan budd cenedlaethol'** yw bod gweithgareddau pysgota cychod pysgota'r DU yn dod â buddiannau cymdeithasol neu economaidd i'r DU neu i ran ohoni.

2.1.23 Mae amcan y budd cenedlaethol yn golygu bod yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn gosod amod ar bob cwch o'r DU y byddan nhw'n ei drwyddedu i ddod â naill ai budd economaidd neu fudd cymdeithasol i'r DU neu i ran ohoni.

2.1.24 **(8)** Yr **'amcan newid hinsawdd'** yw bod —

(a) effeithiau andwyol gweithgareddau pysgod a dyframaethu ar y newid yn yr hinsawdd yn cael eu cadw mor fach â phosibl, a

(b) bod gweithgareddau rheoli pysgod a dyframaethu'n addasu i hinsawdd sy'n newid.

2.1.25 Gall bwyd môr wneud cyfraniad gwerthfawr at ddyfodol carbon isel. Mae'r fflyd bysgota'n amrywiol ac mae rhai dulliau pysgota eisoes yn gymharol garbon isel. Mae bwyd môr yn ffynhonnell iach ac o bosibl garbon is o brotein all dyfu'n gynaliadwy i wireddu ei botensial o fewn y sector bwyd. Fodd bynnag, mae'r awdurdodau polisi pysgodfeydd yn cydnabod bod cyfleoedd o fewn y fflyd bysgota a gweithgareddau dyframaethu i gyfrannu at daith pob gwlad at sero net trwy arloesedd a mabwysiadu technolegau a dulliau pysgota amgen a dechrau ar y newid i ddyfodol carbon isel. Wrth wneud, ceir cyfleoedd am welliannau cyson i ddiogelu cyflenwadau ynni, i leihau gorbenion a sicrhau manteision i'r amgylchedd morol. Hefyd, gall y daith honno ddod â nifer o fuddiannau, gan gynnwys lleihau costau pysgotwyr a lleihau effaith pysgodfeydd ar yr amgylchedd morol. Mae hwn yn newid mawr fydd yn gofyn am newidiadau cyson a sylweddol. Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd i gyd yn cymryd camau i annog y sector bwyd môr i ddatgarboneiddio ac i arloesi â'i offer, gyda sylw arbennig i'r sector dal.

2.1.26 Bydd y newid yn yr hinsawdd yn parhau i newid yr amgylchedd morol ledled y DU, gan newid cyfansoddiad rhywogaethau ecosystemau morol. Yn unol â'r amcan o ran y newid yn yr hinsawdd, bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn helpu pysgodfeydd i addasu i'r newidiadau a'r heriau hyn. Wrth i diriogaethau pysgod dyfu ac wrth i stociau newydd gyrraedd, byddwn yn ystyried defnyddio FMPs i sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n gynaliadwy o'r dechrau. Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn mynd ar drywydd polisïau priodol i reoli

effeithiau pysgota ar stociau bregus ac i ddiogelu, adfer a gwella cynefinoedd carbon glas gwerthfawr.

## 2.2 Cymhwyso’r Amcanion

2.2.1 Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn cymryd camau breision ymlaen i leihau effeithiau pysgota a dyframaethu ar yr amgylchedd morol ac ar iechyd ein stociau pysgod – yn enwedig o ystyried y risgiau cynyddol yn sgil y newid yn yr hinsawdd. Byddwn hefyd yn ceisio sicrhau ein bod yn cynnal ac yn gwella'r manteision economaidd a diwylliannol y mae’n pysgodfeydd a’r sectorau ehangach yn eu rhoi.

2.2.2 O ystyried cymhlethdod pysgodfeydd y DU a'n hamgylchedd morol, byddwn yn parhau i reoli ein pysgodfeydd ar sail ecosystem ac mewn ffordd ragofalus gan geisio mynd ati mewn ffordd gytbwys a chymesur i gyflawni, neu gyfrannu at gyflawni, yr amcanion ar gyfer pysgodfeydd mewn modd sy'n cyfrannu at gyflawni a chynnal statws GES.

2.2.3 Dylid darllen polisïau’r JFS fel pecyn, wedi’u llunio i gyflawni’r holl amcanion pysgodfeydd. Mae’r polisïau cyffredinol yn y JFS yn berthnasol i benderfyniadau rheoli o ddydd i ddydd yr awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol.

2.2.4 Mae adran 2.1 yn esbonio sut mae’r amcanion ar gyfer pysgodfeydd yn cael eu dehongli. Yn y JFS hwn rydym yn defnyddio system cod lliw rhifol ynghyd â disgrifiad i nodi pa amcanion pysgodfeydd sy’n berthnasol i ba bolisïau ac i ddangos sut yr ydym yn eu cymhwyso.  Mae adran 5 yn disgrifio sut yr ydym am ddefnyddio FMPs i gyflawni neu gyfrannu at gyflawni'r amcanion ar gyfer pysgodfeydd.

2.2.5 Mae’n ofynnol i awdurdodau polisi pysgodfeydd bennu polisïau ar gyfer cyflawni, neu gyfrannu at gyflawni'r holl amcanion pysgodfeydd, ac rydym wedi’u nodi yn y JFS hwn a'r FMPs sydd wedi’u rhestru. Mae'r holl amcanion pysgodfeydd yn bwysig, ond bydd rhai polisïau'n fwy perthnasol i amcanion penodol nag i rai eraill. Mae Tabl A yn adran 2.3 yn nodi perthnasedd y polisïau i’r amcanion.

2.2.6 Wrth lunio'r polisïau yn y JFS hwn, mae'r awdurdodau polisi pysgodfeydd yn cydnabod eu bod yn gysylltiedig â’i gilydd. Er enghraifft, heb reoli ein stociau'n gynaliadwy, ni fyddai gennym sector bwyd môr sy'n cynnal swyddi a chymunedau arfordirol ar gyfer y dyfodol; ni fyddai gennym gynnyrch i'w farchnata; ac ni fyddem yn gallu gwireddu ein hymrwymiad i sicrhau statws GES gyda physgod yn elfen allweddol o’r ecosystem.

2.2.7 Weithiau bydd angen rhoi blaenoriaeth i un amcan pysgodfeydd ar draul un arall yn y tymor byr. Bydd angen penderfynu ar flaenoriaethau o'r fath fesul achos, gan ystyried amgylchiadau unigol ac asesu’r risg. Er enghraifft, i helpu cymuned bysgota i addasu i fesur rheoli newydd, neu i fynd i'r afael â her amgylcheddol mewn pysgodfa fel sgil-ddalfa rhywogaethau sensitif mewn ardal neu fflyd benodol. Ond wrth wneud, bydd yr awdurdod polisi pysgodfeydd yn rhoi sylw i amcanion eraill, er enghraifft seilio ei benderfyniadau ar dystiolaeth a chofio'r amcan i fod yn rhagofalus ond gan sicrhau bod mesurau rheoli yn gymesur â risg y broblem dan sylw.

## 2.3 Amcanion fesul Maes Polisi

2.3.1 Rydym wedi rhoi rhif o 1 i 8 i bob un o’r amcanion pysgodfeydd, fel y gwelwch yn yr allwedd isod. Defnyddir y rhifau hyn yn adrannau 3-5 o'r ddogfen hon i nodi pa bolisïau sy'n cyfrannu at gyflawni amcanion unigol. Ceir crynodeb yn Nhabl A isod.

| Amcan | Rhif |
|---|---|
| Amcan cynaliadwyedd | 1 |
| Amcan rhagofalus | 2 |
| Amcan yr ecosystem | 3 |
| Amcan tystiolaeth wyddonol | 4 |
| Amcan o ran sgil-ddalfa | 5 |
| Amcan mynediad cyfartal | 6 |
| Amcan budd cenedlaethol | 7 |
| Amcan newid hinsawdd | 8 |

**Tabl A: Crynodeb o'r amcanion pysgodfeydd yn ôl meysydd polisi'r hwn**

| Penawdau Polisi | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **3.2 Gwyddoniaeth a thystiolaeth** | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | | Ydy | Ydy |
| **4.1 Sut ydym yn rheoli pysgodfeydd** | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | | Ydy | Ydy | Ydy |
| **4.2 Cyflawni amcanion pysgodfeydd trwy'n polisïau** | | | | | | | | |
| 4.2.1 Cyfleoedd pysgota | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | | Ydy | Ydy |
| 4.2.2 Stociau heb gwota | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | | | | Ydy |
| 4.2.3 Cysylltiadau rhyngwladol ehangach | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| 4.2.4 Capasiti pysgota | Ydy | | | | | | | |
| 4.2.5 Hawl i bysgota yn nyfroedd y DU | Ydy | | | | | Ydy | | |
| 4.2.6 Monitro a gorfodi pysgodfeydd | Ydy | Ydy | | Ydy | | | | |
| 4.2.7 Pysgota anghyfreithlon, heb gofnod a heb ei reoleiddio | Ydy | | Ydy | | Ydy | | | |
| 4.2.8 Lleihau'r sgil-ddalfa ac osgoi dal rhywogaethau sensitif | Ydy | | Ydy | Ydy | Ydy | | | |
| 4.2.9 Adleoli | Ydy | | Ydy | | | | Ydy | |

| Penawdau Polisi | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 4.2.10 Cynllunio Gofodol yn y Môr | Ydy | | Ydy | Ydy | | | Ydy | |
| 4.2.11 Ardaloedd Morol Gwarchodedig | | | Ydy | Ydy | | | | Ydy |
| 4.2.12 Sbwriel yn y môr ac offer pysgota pywedi dod i ddiwedd ei oes | Ydy | | Ydy | Ydy | | | | |
| 4.2.13 Dyfroedd arfordirol a chroyw | Ydy | | Ydy | | | | | |
| 4.2.14 Newid hinsawdd | | Ydy | Ydy | Ydy | | | | Ydy |
| 4.2.15 Dyframaethu | Ydy | | Ydy | Ydy | | | | Ydy |
| 4.2.16 Pysgota hamdden yn y môr | Ydy | | Ydy | Ydy | | | | Ydy |
| 4.2.17 Cynhyrchu, marchnata a bwyta bwyd môr | Ydy | | Ydy | | | | Ydy | Ydy |
| **5.0 Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd** | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |

# 3 Rhoi’r JFS ar waith

## 3.1 Egwyddorion

3.1.1 Bydd yr awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol yn rhoi’r polisïau yn y JFS ar waith drwy arfer eu swyddogaethau ac yn unol â'r amcanion pysgodfeydd. Bydd defnyddio'r dystiolaeth a’r cyngor gwyddonol gorau sydd ar gael, gwneud penderfyniadau tryloyw, a gweithio mewn partneriaeth, yn egwyddorion craidd wrth roi’r polisïau ar waith. Mae hyn yn ychwanegol at yr egwyddor o symleiddio a rheoliadau ystyrlon, yn ogystal â chydweithio rhwng awdurdodau gorfodi pysgodfeydd.

3.1.2 Mae'r JFS yn fframwaith tryloyw sy'n nodi blaenoriaethau traws-Lywodraethol ar gyfer dyfroedd y DU i gyflawni'r amcanion pysgodfeydd sy’n cael eu rhoi ar waith gan yr awdurdodau polisi pysgodfeydd ac sy'n cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy yn y DU. Mae hyn yn debyg i'r ffordd y mae (UKMPS) yn fframwaith ar gyfer paratoi cynlluniau morol a gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar yr amgylchedd morol.

3.1.3 Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn rhoi sylw i'r amcanion pysgodfeydd, yn ôl y gofyn, wrth ddatblygu polisïau yn y dyfodol, a byddant yn creu polisïau eraill yn eu priod feysydd cymhwysedd i helpu i gyflawni'r amcanion.

## 3.2 Gwyddoniaeth a Thystiolaeth




3.2.1 Mae’n hanfodol bod gennym wyddoniaeth dda a sylfaen dystiolaeth gadarn, sy'n ennyn ymddiriedaeth a hyder, ar gyfer cyflawni'r amcanion pysgodfeydd. Mae gan y DU y cyfle fel gwlad arfordirol i wireddu ei huchelgais i fod yn arweinydd byd ym maes gwyddoniaeth ac arloesi. Mae arbenigedd y DU, ynghyd â'i chyfoeth o brofiad o gasglu data a gwybodaeth wyddonol am yr amgylchedd morol, yn golygu y gall barhau i ddatblygu tystiolaeth wyddonol o ansawdd uchel am bysgodfeydd a dyframaeth.

### Sut ydym am fynd ati

3.2.2 Yn unol â’r ‘amcan tystiolaeth wyddonol’, bydd y DU yn rheoli pysgodfeydd a dyframaethu ar sail tystiolaeth, gan wneud defnydd llawn o'r dystiolaeth wyddonol orau sydd ar gael, a chefnogi'r DU i barhau i ysgwyddo’i rhwymedigaethau rhyngwladol. Ategir hyn gan raglen fonitro a fframwaith

cynghori eang a chydgysylltiedig, a fydd yn cael eu gwella ymhellach gan ymchwil.

### Y Cyngor Gwyddonol Gorau sydd ar gael

3.2.3 Byddwn yn sicrhau bod yr awdurdodau polisi pysgodfeydd a thu hwnt yn cydweithio i ddatblygu a chaffael cyngor gwyddonol. Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i gydweithio â sefydliadau rhyngwladol, gan gynnwys Cyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr (ICES) a RFMOs, ynghyd â sefydliadau amgylcheddol, y diwydiannau pysgota a dyframaethu a'r sector bwyd môr ehangach.

3.2.4 Mae'r DU yn deall pwysigrwydd a gwerth bod yn aelod o ICES. Byddwn yn parhau i chwarae rhan lawn a gweithgar yn ICES, lle mae gwyddonwyr y DU yn gwneud cyfraniad sylweddol ar bob lefel o'i broses gynghori, gan gynnwys ar y Pwyllgorau Gwyddoniaeth a Chynghori a thrwy gymryd rhan mewn grwpiau arbenigwyr.

3.2.5 Bydd y DU yn manteisio'n llawn hefyd ar ei swydd fel ceisydd cyngor annibynnol ar ICES, i gryfhau'r berthynas â ICES a cheisio cyfleoedd i wella gwyddor pysgodfeydd ac ecosystemau morol yng ngogledd ddwyrain Cefnfor Iwerydd.

3.2.6 Gall data a gwyddor pysgodfeydd fod yn gymhleth, ac nid yw ardaloedd asesu ICES ac ardaloedd rheoli TAC wastad yn cyfateb. Mae hynny felly'n gofyn am waith dehongli. Nid oes digon o ddata'n bod am lawer o stociau i allu asesu eu MSY ac felly mae angen asesiadau eraill i benderfynu ar eu hiechyd. Hefyd, rhaid cynnal mesurau rheoli priodol yn unol â'r cyfyngiadau hyn gan ddilyn yr 'amcan rhagofalus'. Er mwyn bod yn fwy tryloyw, byddwn yn gweithio gydag eraill i'w gwneud yn haws i bawb ddeall y berthynas rhwng y canlyniadau rheoli y cytunir arnynt a'r cyngor ar derfynau cynaliadwy. Byddwn hefyd yn chwilio am ffyrdd o asesu effeithiau ehangach pysgota ar rywogaethau anfasnachol a'r amgylchedd morol ehangach.

3.2.7 Bydd y DU yn adrodd hefyd ar gynaliadwyedd stociau drwy gyfuniad o fesuriadau trosfwaol, gan adlewyrchu statws nifer fawr o stociau gyda'i gilydd ynghyd â gwybodaeth fanylach am stociau unigol.

### Casglu a Rhannu Data Gwyddonol

3.2.8 Trwy sicrhau bod gan yr holl awdurdodau polisi pysgodfeydd raglen gydgysylltiedig ar gyfer casglu data, byddwn yn sicrhau bod data pysgodfeydd a dyframaethu yn cael eu casglu a'u rhannu mewn ffordd gyson a bod hynny'n parhau. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn i'r DU allu bodloni ei hymrwymiadau a diwallu ei hanghenion. Mae'r DU wrthi'n cynnal adolygiad a dadansoddiad

manwl o’i rhaglen fonitro i sicrhau bod y ffordd y cesglir data’n ateb y gofyn ac yn cefnogi ymrwymiadau a blaenoriaethau’r DU

3.2.9 Gwneir hyn drwy Gynllun Gwaith fydd yn benodol i’r DU, yn unol â'r Fframwaith Pysgodfeydd. Caiff Cynllun Gwaith y DU ei adolygu’n rheolaidd i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y DU am ddata.

3.2.10 Byddwn yn casglu ystod o ddata a gwybodaeth - gwyddonol, technegol, economaidd a chymdeithasol - o ystod eang o ffynonellau. Er enghraifft, trwy arolygon annibynnol o bysgodfeydd, gwaith samplu mewn pysgodfeydd, data am weithgarwch pysgota a data a gwybodaeth gan y diwydiant a chan arbenigeddau rhyngwladol.

3.2.11 Mae monitro effeithiol a physgodfeydd sydd wedi’u dogfennu’n llawn yn allweddol i sicrhau dyfodol cynaliadwy sy’n seiliedig ar dystiolaeth dda i'r diwydiant pysgota a'r amgylchedd morol. Lle bo angen, bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn ymchwilio i’r defnydd o dechnolegau fel Systemau Monitro Cychod (VMS) a Monitro Electronig o Bell (REM) at ddibenion gwyddonol ac i helpu i reoli pysgodfeydd yn gynaliadwy.

3.2.12 Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn sefydlu rhaglenni monitro a goruchwylio priodol hefyd i ni ddeall yn well effeithiau gweithgareddau pysgota ar yr amgylchedd a’n helpu i gyflawni GES a'r amcanion pysgodfeydd gan gynnwys cynaliadwyedd, newid hinsawdd a rheoli ar sail ecosystem.

3.2.13 Bydd mesurau rheoli pysgodfeydd yn cael eu hadolygu’n rheolaidd i sicrhau eu bod yn effeithiol a’u diweddaru yn ôl yr angen ar sail y dystiolaeth sydd ar gael. Caiff y dystiolaeth hon ei chasglu fel rhan o Gynllun Gwaith ehangach y DU a rhaglenni ymchwil a monitro pysgodfeydd domestig. Bydd hynny’n sicrhau bod y penderfyniadau a wneir yn cefnogi pysgodfeydd cynaliadwy ac yn cyfrannu at gyflawni’r amcan ynghylch cynaliadwyedd. Bydd diwydiant pysgota cynaliadwy yn dod â manteision cymdeithasol ac economaidd yn ei sgil, gan sicrhau adnoddau a swyddi cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau heddiw ac yfory. Bydd hynny hefyd yn ein helpu i gyflawni amcan y ‘budd cenedlaethol’.

3.2.14 Bydd yr awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol yn ceisio ei gwneud hi mor rhwydd â phosibl i bawb allu gweld gwybodaeth wyddonol a thechnegol ei gilydd. Bydd hyn yn hwb i fonitro pysgodfeydd y DU, cyflawni’r ymrwymiadau adrodd a rheoli’r stociau a rennir.

3.2.15 Byddwn yn sicrhau bod yr wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd, lle bo'n briodol, gan annog gwell cydgysylltu, a mynediad at ddata a'u rhannu i’n helpu i reoli bysgodfeydd yn well.

3.2.16 Byddwn yn parhau i rannu data lle bo'n briodol â gwledydd eraill, gan gynnwys helpu i drefnu gwaith monitro rhanbarthol. Byddwn yn trafod â ffora priodol, ac yn eu sefydlu lle bo angen, i hwyluso cydweithredu.

### Gwella'r Sylfaen Dystiolaeth

3.2.17 Bydd y sylfaen dystiolaeth yn cael ei chynnal a'i gwella i gefnogi'r amcanion ar gyfer pysgodfeydd, gan gynnwys tystiolaeth am gynaliadwyedd, sgil-ddalfeydd, newid hinsawdd a rheoli ar sail ecosystemau. Bydd hynny, ymhlith pethau eraill, yn gwella ein dealltwriaeth gyfunol o effaith pysgota a dyframaethu ar yr amgylchedd morol a cheisio ffyrdd o asesu effeithiau pysgota ar rywogaethau anfasnachol. Gwneir hyn drwy dargedu gwaith ymchwil, ymchwilio i arloesedd a manteisio ar ffrwyth partneriaethau pysgodfeydd, dyframaethu a morol - megis gyda diwydiant, academia a phartneriaid rhyngwladol, gan gynnwys trwy Ddegawd y Cenhedloedd Unedig ar Eigioneg dros Ddatblygu Cynaliadwy.

3.2.18 Bydd yr awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol yn barod i archwilio ffynonellau data gwyddonol a gwybodaeth newydd ac arloesol posibl, a dulliau o'u casglu, er mwyn casglu data o ansawdd uchel yn well a chodi safonau cyngor. Bydd hynny'n cynnwys uchelgais i annog y diwydiant i gymryd rhan yn y gwaith o gasglu data er mwyn helpu i reoli stociau a chynnal diwydiant pysgota cynaliadwy. Bydd dulliau presennol a newydd yn cael eu gwerthuso'n barhaus i sicrhau eu bod yn darparu data a gwybodaeth ddefnyddiol a pherthnasol, yn ogystal â bod yn gost-effeithiol.

3.2.19 Byddwn yn ceisio cydweithredu mewn ffyrdd newydd â'r diwydiant, gan geisio atebion i broblemau rheoli pysgodfeydd, megis monitro effeithiol, cael y gorau o arferion gwaith, offer pysgota detholus a lleihau effeithiau.

## 3.3 Gweithio mewn Partneriaeth

3.3.1 O ystyried natur ddatganoledig pysgodfeydd y DU a bod y DU yn rhannu nifer o stociau â gwledydd arfordirol eraill, mae rheolaeth effeithiol yn dibynnu ar atebion ar lefel y DU a rhyngwladol. Felly, nid oes modd rheoli pysgodfeydd ar wahân. Rhaid i awdurdodau polisi pysgodfeydd weithio gyda'i gilydd a chyda'n rhanddeiliaid, gwledydd arfordirol eraill, a phartneriaid rhyngwladol.

3.3.2 Er mwyn cyflawni, neu gyfrannu at gyflawni, yr amcanion ar gyfer pysgodfeydd, mae'r awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol wedi ymrwymo i weithio gyda'n partneriaid, a thrafod yn eang ag ystod o randdeiliaid, sydd â rhan bwysig o ran rheoli ein moroedd a'n hadnoddau naturiol. Mae'n hanfodol alinio ac integreiddio â mecanweithiau rheoli morol ehangach, gan gynnwys â'n rhwydwaith o safleoedd gwarchodedig, system cynllunio morol y DU, ac UKMS.

## 3.4 Gwneud Penderfyniadau Cyfranogol

3.4.1 Ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol yw y dylai’r diwydiant wneud mwy o gyfraniad at reoli pysgodfeydd. Gall hyn gynnwys datblygu arferion rheoli newydd a chyfrannu at wyddoniaeth pysgodfeydd, cymryd rhan fwy gweithredol mewn penderfyniadau am reoli pysgodfeydd, a chyd-lunio polisi yn y dyfodol. Mae pysgod gwyllt yn adnodd cyhoeddus y mae’r sector pysgota’n elwa arnynt ac ar sail hynny, bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn ystyried sut y gallai’r sector pysgota wneud mwy o gyfraniad at gost rheoli’r pysgodfeydd hyn.

3.4.2 Ceir gwahanol fodelau o benderfynu cyfranogol ledled y DU, sy'n rhoi llais i'r sectorau bwyd môr a morol, sefydliadau anllywodraethol a chymunedau arfordirol yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae'r awdurdodau polisi pysgodfeydd wedi ymrwymo i ddatblygu a chryfhau'r trefniadau hyn ymhellach ar gyfer cyd-reoli ein pysgodfeydd a hyrwyddo cynwysoldeb a chyfranogiad ar draws pob rhan o gymdeithas wrth eu rheoli.

3.4.3 Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd hefyd yn parhau i ddefnyddio grwpiau sy’n bod eisoes, lle bo'n briodol, fel rhan o drefn effeithiol a chadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau, a bydd yn annog rhanddeiliaid i gymryd rhan yn gynnar yn y broses datblygu polisi, i nodi problemau ac atebion posibl, yn ogystal â hyrwyddo tryloywder.

3.4.4 Mae'r awdurdodau polisi pysgodfeydd yn cydnabod bod angen trefniadau llywodraethu cryf, clir a thryloyw, er mwyn sicrhau bod ymgysylltu priodol yn digwydd a bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar y lefel gywir. Bydd angen nodi hynny mewn dogfennau polisi a gweithredu perthnasol a nodi rôl grwpiau sectoraidd, cenedlaethol a lleol o ran helpu’r broses benderfynu ac i reoli ein pysgodfeydd yn effeithiol, gan barchu mai rheoleiddwyr a Gweinidogion yn y pen draw sy’n atebol.

## 3.5 Y Broses Adrodd ac Adolygu

3.5.1 Bydd y JFS yn aros fel ag y mae nes y caiff ei ddiwygio neu ei ddisodli. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau polisi pysgodfeydd adolygu'r JFS pan fyddan nhw’n credu ei bod yn briodol gwneud hynny, ac o leiaf o fewn 6 blynedd ar ôl ei gyhoeddi neu ei adolygiad diweddaraf.

3.5.2 Cedwir FMP fel ag y mae nes y caiff ei ddisodli neu ei ddirymu. Gellir ei ddiwygio hefyd. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod neu'r awdurdodau perthnasol adolygu FMP pan fernir ei bod yn briodol gwneud hynny, ac o leiaf o fewn 6 blynedd ar ôl ei gyhoeddi neu ei adolygiad diweddaraf.

3.5.3 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod polisi pysgodfeydd baratoi a chyhoeddi adroddiad ar y cyd, bob 3 blynedd, ar y graddau y mae'r polisïau yn y JFS wedi'u rhoi ar waith, ac wedi cyflawni neu gyfrannu at gyflawni'r amcanion ar gyfer pysgodfeydd. Rhaid i'r adroddiad hefyd ddisgrifio i ba raddau y mae'r polisïau mewn FMP perthnasol wedi'u rhoi ar waith ac wedi effeithio ar lefelau stociau pysgod môr.

3.5.4 Ceir rhagor o wybodaeth am y broses adrodd ac adolygu ar gyfer y JFS a'r FMPs yn y Ddeddf yn adrannau 3, 8 ac 11, a Rhan 1 a Rhan 3 o Atodlen 1.

## 3.6 Monitro

3.6.1 Er mwyn mesur effaith y JFS, bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd, yn y lle cyntaf, yn defnyddio'r ffynonellau data presennol, yn enwedig rhai ICES, i fonitro iechyd stociau pysgod gwyllt, a'r data economaidd-gymdeithasol cynhwysfawr a gesglir ar faint a chyfansoddiad fflyd y DU. Byddwn hefyd yn defnyddio dangosyddion a rhaglenni monitro perthnasol UKMS. Bydd y data yn caniatáu mesur yn gyson effeithiau'r mesurau a gymerwyd yn y JFS ar iechyd stociau pysgod a'r fflyd bysgota.

3.6.2 Os yw’r dangosyddion presennol yn annigonol, bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn datblygu dangosyddion ychwanegol ac yn comisiynu rhagor o ymchwil.

# 4 Rheoli Pysgodfeydd yn Gynaliadwy

## 4.1 Sut ydym yn Rheoli Pysgodfeydd

1 2 3 4 6 7 8

4.1.1 Mae sector bwyd môr bywiog a llewyrchus, sy'n cynnal cymunedau arfordirol ffyniannus, yn dibynnu ar amgylchedd morol iach a chydnerth. Mae defnyddio cyfalaf naturiol y môr mewn ffordd gynaliadwy a’i warchod ar gyfer cenedlaethau heddiw ac yfory y ganolog felly i’r ffordd rydym yn rheoli pysgodfeydd.

4.1.2 Mae pysgodfeydd yn gwbl ddibynnol ar yr ecosystemau y maent yn gweithredu ynddynt, a gall yr ecosystemau hyn gael eu peryglu gan bwysau o du pobl, gan gynnwys llygredd, sbwriel morol, a gorddefnydd anghynaliadwy ar adnoddau morol. Er enghraifft, effaith lefelau stoc ar brosesau a gweithrediad yr ecosystem - er enghraifft, difa rhywogaethau ysglyfaethus.

4.1.3 Felly, i sicrhau pysgodfeydd cynaliadwy a phroffidiol hirdymor, rhaid eu rheoli i gadw effeithiau andwyol gweithgarwch pysgota ar weithrediad ecosystemau, cydnerthedd ecosystemau morol ac effeithiau bygythiadau amgylcheddol fel y newid yn yr hinsawdd, mor fach â phosibl.

4.1.4 Mae hyn hefyd yn cydnabod y rhwymedigaeth yn UKMS i gyrraedd statws GES. Mae'r JFS yn bwysig o ran cyrraedd statws GES a chyflawni'r UKMS ar gyfer rhywogaethau pysgod sydd wedi'u targedu'n fasnachol a'r rhai sydd heb eu targedu, yn ogystal â chefnogi'r gwaith ar lu o dargedau eraill gan gynnwys morfilod, morloi, adar, gweoedd bwyd, cynefinoedd benthig, cyflwr gwely'r môr a sbwriel môr. Yn ei dro, cydnabyddir y bydd mesurau a gymerir i gyrraedd neu gadw statws GES o ran halogyddion mewn bwyd môr, halogyddion mwy cyffredinol, ac ewtroffigedd hefyd yn sail ar gyfer stociau pysgod iach.

4.1.5 Bydd polisïau yn y JFS yn allweddol i gyrraedd targedau UKMS i adfer a chynnal poblogaethau rhywogaethau sy'n cael eu cynaeafu, o leiaf ar lefelau a all gynhyrchu MSY, ac i gynnal stociau ar lefelau y gellir eu pysgota yn y tymor hir ar lefelau pysgota MSY.

4.1.6 Mae'r dystiolaeth gyfredol yn dangos mai un o'r prif ffactorau sy'n rhwystro cynefinoedd gwely'r môr rhag cyrraedd GES yw effaith ffisegol pysgota ar wely'r môr. Dangosodd rhan un o'r UKMS (2019), fod gweithgareddau pysgota rhwng 2010 a 2015 yn amharu'n digwydd ar lefel eang[6], ac y bydd mesurau rheoli pysgodfeydd priodol yn hanfodol er mwyn gallu cyrraedd targedau GES ar gyfer cynefinoedd gwely'r môr.

4.1.7 Gellir meddwl am reoli pysgodfeydd fel proses gylchol. Rydym yn gwneud gwaith ymchwil ac yn casglu data i ddeall yn well beth yw cyflwr stociau, perthynas pysgodfeydd â'r amgylchedd morol, a'r sector bwyd môr ei hun. Rydym yn cytuno ar gyfleoedd pysgota ac yn eu dyrannu; yn defnyddio mesurau i reoli cyfran y boblogaeth pysgod a leddir trwy bysgota (*marwoldeb pysgota)*, lleihau effeithiau amgylcheddol, a gwella cynaliadwyedd y gadwyn gyflenwi; asesu effeithiolrwydd y mesurau rheoli; a defnyddio'r data hyn i wella ein gwyddoniaeth a'n sylfaen dystiolaeth, sydd wedyn yn llywio sut ydym yn pennu cyfleoedd pysgota ac yn datblygu mesurau rheoli. Mae'r meysydd hyn yn cyd-fynd â'r amcan ynghylch tystiolaeth wyddonol. Yn hyn o beth, rhaid rhoi sylw hefyd i ddiogelu bioamrywiaeth ac ecosystemau morol iach, yn unol â'r amcan ynghylch ecosystemau.

4.1.8 Cydnabyddir hefyd rôl hollbwysig y sector bwyd môr o ran darparu bwyd a chyflogaeth, yn ogystal â'i werth diwylliannol sylweddol. Dylai penderfyniadau gan yr awdurdodau polisi pysgodfeydd ar reoli pysgodfeydd ystyried hyn yn unol â'r amcanion cynaliadwyedd, mynediad cyfartal a budd cenedlaethol er

[6] Ystyr 'amharu' yw effeithiau cyfuniadau gwahanol o bethau (amrywiol o ran dwysedd a hyd) ar gynefinoedd a rhywogaethau benthig.

mwyn sicrhau bod ei rôl yn cael parhau, ac i ddiogelu buddiannau hirdymor y sector a lles y cymunedau y mae'n eu cynnal.

4.1.9 Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn cymhwyso’r amcanion pysgodfeydd i’n gwaith domestig a rhyngwladol. Gartref, gwneir hynny wrth benderfynu sut i ddyrannu cyfleoedd pysgota ac wrth ddatblygu polisïau a mesurau rheoli pysgodfeydd yn y dyfodol. Yn ei thrafodaethau am bysgodfeydd gyda gwledydd arfordirol eraill ac mewn ffora pysgodfeydd rhyngwladol, bydd y DU yn ceisio cyflawni neu gyfrannu at gyflawni'r amcanion ar gyfer pysgodfeydd.

4.1.10 Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd ac awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol yn rheoli ein pysgodfeydd ar sail ecosystemau. Byddan nhw’n dal i ystyried yr angen am ecosystemau morol iach wrth iddyn nhw arfer eu swyddogaethau ac yn ystyried effeithiau pysgota a gweithgareddau dynol eraill ar yr amgylchedd morol. Bydd hyn yn ein helpu i gyflawni’r amcanion cynaliadwyedd, rhagofalus ac ecosystemau, yn ogystal â chyfrannu at y GES. Bydd yn cynnwys mesurau i reoli pysgodfeydd yn gynaliadwy, cynnal poblogaethau iach o rywogaethau targed, adfer poblogaethau rhywogaethau bregus a diogelu rhywogaethau prae hanfodol. Mae mesurau o'r fath yn cydnabod bod stociau iach ac amgylchedd iach yn dibynnu ar ei gilydd ac yn cefnogi diwydiant pysgota ffyniannus i'r dyfodol.

4.1.11 Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn gweithredu hefyd mewn ffordd ragofalus wrth reoli pysgodfeydd yn unol â'r amcan rhagofalus, ac yn ceisio pysgota o fewn terfynau cynaliadwy yn ôl y cyngor gwyddonol gorau sydd ar gael, gan gynnwys yr MSY neu ddefnyddio procsi addas os oes digon o ddata gwyddonol yn ogystal ag ystyried tystiolaeth am ryngweithiau pysgodfeydd cymysg lle bo hynny’n briodol. Bydd hynny’n gyson â’r amcan ynghylch tystiolaeth wyddonol. Lle nad oes data, ni chaiff hyn ei ddefnyddio fel rheswm dros beidio â chymryd camau rhagofalus priodol i reoli neu i ddelio â'r risg i stociau neu i’r amgylchedd morol.

4.1.12 Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn parhau i weithio gyda'r diwydiant pysgota a rhanddeiliaid eraill ar ystod o fentrau rheoli fel diogelu ardaloedd silio a meithrin stociau pwysig, lleihau’r crafu ar wely’r môr a lleihau dalfeydd ofer. Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn ystyried sut y byddant am fonitro pysgodfeydd, gan gynnwys defnyddio technolegau fel VMS ac REM. Bydd symud at ddull mwy cydweithredol o reoli pysgodfeydd, fel y nodir yn adran 3 uchod, yn galluogi'r sector pysgota i gyfrannu ei wybodaeth am weithgareddau ac effeithiau i helpu i gyd-lunio camau rheoli. Wrth weithio fel hyn, gall yr awdurdodau polisi pysgodfeydd a'r diwydiant pysgota weithio gyda'i gilydd i gyfrannu at gyflawni'r amcanion ar gyfer pysgodfeydd.

4.1.13 Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn sicrhau nad yw ein cymorth ariannol yn tanseilio ond yn cyflawni neu’n cyfrannu at yr amcanion pysgodfeydd. Er

enghraifft, Er enghraifft, trwy gefnogi seilwaith ar y tir, arloesi mewn offer pysgodfeydd dal a lleihau allyriadau cychod.

4.1.14 Bydd ein FMPs yn nodi polisïau ar gyfer pysgodfeydd neu stociau penodol i gyfrannu at gyflawni'r amcanion ar gyfer pysgodfeydd (adran 5). Rhaid i bob FMP ddisgrifio'r dangosydd neu ddangosyddion perthnasol y bydd rheolwyr pysgodfeydd yn eu defnyddio i asesu effeithiolrwydd y cynllun. Lle medrir, bydd y dangosydd yn cynnwys gwerthoedd MSY (os oes modd eu nodi), fel arall defnyddir procsi addas ar gyfer stociau y ceir llai o ddata amdanynt. Lle bo hynny'n ymarferol, bydd yr FMP yn cynnwys cynlluniau ar gyfer casglu data ychwanegol er mwyn pennu gwerthoedd MSY neu bydd yn esbonio pam na chynigir unrhyw gynlluniau o'r fath.

4.1.15 Mae'r awdurdodau polisi pysgodfeydd yn deall bod angen cymryd camau cadarn i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r cynnydd yn lefelau carbon deuocsid a'r newid yn yr hinsawdd[7] yn effeithio ar ecosystemau morol, gan gynhesu moroedd, gostwng lefelau ocsigen, asideiddio cefnforoedd, a chodi lefelau'r môr. Ar y llaw arall, mae'r ecostystemau morol yn rhoi cyfleoedd i'n helpu i addasu i dymheredd uwch, ac i gloi a storio carbon glas. Mae ecosystemau sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd yn hanfodol ar gyfer stociau iach a rhaid ystyried hyn wrth reoli ein moroedd. Yn unol â'r amcan newid yn yr hinsawdd yn y Ddeddf, nod yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yw lleihau effeithiau andwyol gweithgareddau pysgota a dyframaethu ar y newid yn yr hinsawdd. Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd ar y cyd â phartneriaid yn y diwydiant pysgota, yn chwilio am y llwybrau gorau i gyfrannu at dargedau carbon sero net o fewn yr amserlenni a bennir gan bob awdurdod polisi pysgodfeydd, gan gynnwys drwy ymchwilio i allyriadau cychod pysgota ac allyriadau'r gadwyn gyflenwi a'u lleihau (adran 4.2.14).

## 4.2 Cyflawni'r Amcanion Pysgodfeydd trwy'n Polisïau

### 4.2.1 Cyfleoedd Pysgota




Mae'r adran hon yn nodi sut y caiff cyfleoedd pysgota eu pennu, eu dosrannu a'u dyrannu, a sut y caiff yr amcanion pysgodfeydd eu hystyried ym mhob cam.

[7] MCCIP (2020) Marine Climate Change Impacts: Marine Climate Change Impacts Report Card 2020

**Sut mae cyfleoedd pysgota'n cael eu pennu**

4.2.1.1 Yr Ysgrifennydd Gwladol sy’n pennu uchafswm y pysgod y caiff fflyd bysgota Prydain ei ddal (cwota dal) a'r nifer mwyaf o ddiwrnodau y caiff fflyd bysgota Prydain ei dreulio ar y môr (cwota ymdrech), hynny ar ôl ymgynghori â Gweinidogion yr Alban, Gweinidogion Cymru, adran Gogledd Iwerddon a'r MMO. Disgrifir cwotâu dal a chwotâu ymdrech, gyda'i gilydd, fel y cyfleoedd pysgota.

4.2.1.2 Bydd y penderfyniad hwn fel arfer yn cael ei wneud yn flynyddol a bydd yn pennu’r cyfleoedd pysgota ar gyfer y flwyddyn bysgota honno. Rheolir y cyfleoedd hynny gan awdurdodau polisi pysgodfeydd y DU.

4.2.1.3 Mae'r rhan fwyaf o stociau pysgod yn rhychwantu dyfroedd y DU a dyfroedd gwledydd cyffiniol. O'r herwydd, un o’r prif fecanweithiau ar gyfer cyflawni’n hamcanion ynghylch rheoli pysgodfeydd cynaliadwy yw trwy drafodaethau rhyngwladol am bysgodfeydd a rhydd gyfle i ddylanwadu ar y modd y rheolir stociau y tu hwnt i’n Parth Economaidd (EEZ).

4.2.1.4 Bydd pennu cyfleoedd i bysgota am y stociau hyn yn y DU fel arfer yn dilyn trafodaethau rhyngwladol ac yn adlewyrchu’r cytundebau a geir yn sgil y trafodaethau hynny. Cynhelir y trafodaethau hyn gan Lywodraeth y DU gyda chymorth arbenigwyr o bob rhan o'r awdurdodau polisi pysgodfeydd.

4.2.1.5 O dan rai amgylchiadau, gellir penderfynu ar gyfleoedd pysgota dros dro. Er enghraifft, os nad yw’r trafodaethau rhyngwladol wedi dod i fwcwl erbyn dechrau’r flwyddyn bysgota.

4.2.1.6 Ar gyfer stociau a geir yn nyfroedd y DU yn unig ac nad ydynt yn destun cytundeb â gwledydd eraill, y DU yn unig fydd yn pennu’r cyfleoedd pysgota.

4.2.1.7 Ar ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol bennu’r cyfleoedd pysgota, bydd yn eu dosrannu rhwng yr awdurdodau polisi pysgodfeydd. Mater i bob awdurdod wedyn yw penderfynu sut i ddyrannu ei gyfran i’r diwydiant.

4.2.1.8 Gall yr awdurdod polisi pysgodfeydd ac unrhyw sefydliad sy’n cael gwneud hynny gan yr awdurdod polisi pysgodfeydd dan sylw, reoli a chyfnewid cyfleoedd pysgota yn ystod y flwyddyn bysgota.

4.2.1.9 Mae awdurdodau polisi pysgodfeydd yn cydnabod bod cael rheoli gweithgarwch pysgota yn bwysig er mwyn gallu ymateb i newidiadau naturiol, caniatáu ar gyfer natur ddeinamig ecosystemau morol ac er mwyn gallu gwrthsefyll pwysau pysgota, amrywiadau naturiol a’r newid yn yr hinsawdd. Ein nod felly yw cytuno a phennu cyfleoedd pysgota y mae cyngor gwyddonol yn awgrymu a ddylai helpu i adfer a chynnal yr holl stociau masnachol uwchlaw lefelau biomas ac a fydd yn cynhyrchu lefelau cynaliadwy yn y tymor hir.

4.2.1.10 Rydym yn cydnabod, er mwyn cadw’r ddysgl yn wastad rhwng ein hymrwymiadau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol, y gallai fod angen i'r llwybrau (tuag at sicrhau’r lefelau biomas hyn) gyflymu neu arafu, a bydd sicrhau'r cydbwysedd hwnnw rhwng y tair elfen hon yn elfen ganolog o’r amcan cynaliadwyedd. Dylid bod yn ymwybodol wrth wneud y penderfyniadau hyn o'r effaith ar gymunedau arfordirol a pheidio â pheryglu adferiad hirdymor stociau neu ddarparu amgylchedd morol iach.

**Pennu cyfleoedd pysgota drwy drafodaethau rhyngwladol**

4.2.1.11 Fel gwlad ag iddi arfordir, mae'r DU yn gorfod cadw at ofynion UNCLOS, sy'n ymrwymo gwledydd arfordirol i reoli'r adnoddau byw yn eu EEZ mewn modd cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys cydweithio â gwledydd arfordirol eraill ar stociau pysgod sy'n rhychwantu’u EEZs.

4.2.1.12 Mae'n hanfodol ein bod yn gweithio mewn partneriaeth â'n cymdogion arfordirol er mwyn hyrwyddo'r defnydd cynaliadwy o stociau a rheolaeth gyfrifol o'n dyfroedd.

4.2.1. 13 Gwnawn hyn yn bennaf drwy ymgynghoriadau blynyddol ffurfiol a chytundebau rhyngwladol, megis y TCA a'n cytundebau fframwaith pysgodfeydd gyda Norwy ac Ynysoedd Ffaro, ac o ran stociau pysgod mudol iawn a stociau sy’n rhychwantu, drwy drafodaethau â gwledydd arfordirol neu wledydd perthnasol eraill, ac yn yr RFMOs perthnasol.

4.2.1.14 Bydd y DU yn cynnal ei thrafodaethau ynghylch pysgodfeydd rhyngwladol yn unol â’r egwyddorion canlynol ac yn unol â’r amcanion pysgodfeydd.

**Egwyddorion Trafodaethau Rhyngwladol ynghylch Pysgodfeydd**

Drwy drafodaethau pysgodfeydd, bydd y DU yn ceisio cyflawni neu gyfrannu at gyflawni'r amcanion pysgodfeydd yn y Ddeddf. Yn benodol, bydd y DU yn ceisio:

- cynyddu nifer y stociau sy'n cael eu pysgota at lefel y MSY neu brocsi addas, yn unol â'r cyngor gwyddonol gorau sydd ar gael a chan ystyried y dystiolaeth orau sydd ar gael am effeithiau gweithgarwch pysgota.
- sicrhau bod stociau'n cael eu pysgota’n gynaliadwy drwy sefydlu trefn gynhwysfawr ar gyfer rhannu cwota (TAC) yn seiliedig ar egwyddor y parth.
- sicrhau canlyniadau sy'n gyson â rhwymedigaethau ehangach ar gyfer cadwraeth a defnydd cynaliadwy o'r amgylchedd morol gan gynnwys UKMS, ac ymrwymiadau rhyngwladol fel y rheini o dan CBD, Confensiwn OSPAR, a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.
- lleihau effeithiau negyddol pysgota ar rywogaethau nad ydynt yn dargedau, cynefinoedd morol ac ecosystemau drwy reoli ar sail ecosystem.

- rheoli'r gwaith o gynaeafu stociau a rennir yn gynaliadwy gan gynnwys stociau sydd heb gwota.

- cefnogi'r gwaith o roi’r polisïau sydd wedi'u cynnwys mewn FMPs a Chynlluniau Rheoli Hirdymor ar waith.

- lleihau neu ddileu’r arfer niweidiol ac anghyfreithlon o daflu pysgod yn ôl i’r môr, a mynd i'r afael â’r risg o ddal pysgod nad oes eu hangen (‘choke risk’), gan gynnwys drwy helpu i adfer stociau sgil-dalfeydd.

- sicrhau bod mentrau adfer stociau yn rhoi ystyriaeth briodol i ffactorau economaidd-gymdeithasol; a

- rhoi sicrwydd a chanlyniadau proffidiol i'r diwydiant.

4.2.1.15 Mae pennu’r TAC (Cyfanswm y Ddalfa a Ganiateir) yn rhan allweddol o’r trafodaethau rhwng gwledydd arfordirol. Rhaid wrth y TAC, a chytundebau ar sut i rannu cwota, i sicrhau bod gwledydd arfordirol yn cadw o fewn terfynau dal.

4.2.1.16 Mae'r DU yn negodi TACs ar gyfer tua 70 o stociau gyda'r UE bob blwyddyn. Mae'r TACs y cytunir arnynt yn cael eu rhannu rhwng y DU a'r UE fel a nodir yn y TCA. Datblygir barn am gyfleoedd pysgota fel sail i’r trafod â’r UE drwy ymgynghori â’r awdurdodau polisi pysgodfeydd.

4.2.1.17 Mae'r TCA yn cydnabod bod gan y DU reolaeth sofran ar ei dyfroedd ers 1 Ionawr 2021. Mae cyfnod pontio o bum mlynedd a hanner o'r pwynt hwnnw i ganiatáu amser i bysgotwyr y ddwy ochr gynefino â'r trefniadau mynediad newydd. Yn ystod y cyfnod hwn, yn ôl y TCA, bydd gan bob parti yr hawl o hyd i fynd i’w dyfroedd ei gilydd ar lefelau sy'n cyfateb i’w gyfran o gyfleoedd pysgota ar gyfer bron pob stoc ac, ar gyfer stociau sydd heb gwota, ar sail lefelau hanesyddol. Fel y nodir yn y TCA, ar ddiwedd y cyfnod pontio, bydd mynediad a chyfleoedd pysgota yn cael eu trafod bob blwyddyn.

4.2.1.18 Cynhelir trafodaethau rhwng y DU, yr UE a Norwy bob blwyddyn i bennu TACs ar gyfer stociau a reolir ar y cyd ym Môr y Gogledd. Pennir cyfleoedd pysgota pob parti gan y TACs a chytunir ar y cyfrannau fel rhan o’r trafodaethau hynny.

4.2.1.19 Rheolir stociau pelagig sydd â gwasgariad eang - yn arbennig, mecryll, swtanod glas a sgadan (penwaig) Iwerydd-Sgandinafia - ar y cyd drwy drafodaethau rhwng y DU a nifer o wledydd eraill yng ngogledd ddwyrain cefnfor Iwerydd. Yn ystod trafodaethau blynyddol, nod y partïon yw cytuno ar TAC pob stoc yn ogystal â mesurau rheoli eraill a threfniadau rhannu. Mae'r DU yn argymell rheoli’r stociau hyn ar sail gwyddoniaeth a thystiolaeth a bydd yn parhau i wneud hynny wrth geisio cytundeb ar drefniadau rhannu cynhwysfawr.

4.2.1.20 Mae'r DU o'r farn bod gwybodaeth am wasgariad stociau pysgod yn hanfodol i allu pennu TAC a chyfran gwlad o stoc benodol, boed trwy drafodaethau dwyochrog, tairochrog neu amlochrog. Dylai'r wybodaeth hon hefyd fod yn sail i sut y dylid dosrannu dalfa pob stoc ar draws ardaloedd rheoli’r TAC.

4.2.1.21 Yn ei thrafodaethau blynyddol gydag Ynysoedd Ffaro a Norwy, bydd y DU yn anelu at ddod i gytundebau sy'n pennu cyfleoedd yn deg a chytbwys, drwy gyfnewid cwota a mynediad; a sicrhau’r fargen orau i fflyd y DU.

4.2.1.22 Fel arfer, rheolir pysgodfeydd mewn dyfroedd rhyngwladol (neu’r 'moroedd mawr' fel y’u gelwir) a stociau pysgod mudol iawn a physgod sy’n ‘rhychwantu’, gan RFMOs. Mae'r DU yn barti contractio annibynnol ar nifer o RFMOs, gan gynnwys Comisiwn Pysgodfeydd Gogledd-ddwyrain Cefnfor Iwerydd (NEAFC) a'r Comisiwn Rhyngwladol dros Warchod Tiwna Iwerydd (ICCAT). Bydd angen i safiad y DU yn nhrafodaethau'r RFMO gael ei lywio gan ein hamcanion domestig a rhyngwladol, gan gynnwys yr amcanion ar gyfer pysgodfeydd lle bo hynny'n berthnasol.

4.2.1.23 Yn ogystal â’r RFMOs, mae'r DU hefyd yn rhan o Gytundeb Paris ar Spitsbergen (Svalbard) 1920, sy'n cynnig cyfleoedd pysgota mewn dyfroedd y tu allan i EEZ y DU.

**Pennu cyfleoedd pysgota ar gyfer stociau'r DU yn unig**

4.2.1.24 Byddwn yn ymdrin â'r stociau hynny yr ydym yn llwyr gyfrifol amdanynt yn yr un ffordd, gan ystyried yr amcanion ar gyfer pysgodfeydd a chan defnyddio'r wyddoniaeth a'r dystiolaeth orau sydd ar gael i benderfynu ar ein barn o ran cwotâu a rhywogaethau heb gwota. Y prif wahaniaeth yw nad oes gofyn trafod y farn honno, ac felly lle rheolir y stoc gan gwota, gallwn wneud hynny ein hunain drwy broses benderfynu’r Ysgrifennydd Gwladol (fel a ddisgrifir uchod). Byddwn yn rhagofalus yn hyn o beth, gan ddefnyddio'r dystiolaeth a'r cyngor gwyddonol gorau sydd ar gael ar gyfer stociau sy'n bodoli yn nyfroedd y DU yn unig.

**Cyfleoedd dosrannu ar draws y DU**

4.2.1.25 Nodir sut y caiff cyfleoedd pysgota eu dosrannu rhwng yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn Rheolau Rheoli Cwota'r DU (QMR) sydd ar gael i'r cyhoedd.

4.2.1.26 Gall y rheolau hyn ymdrin ag agweddau eraill ar reoli cyfleoedd pysgota rhwng awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol. Er enghraifft, sut y byddwn yn rheoli:

- Stociau nad ydynt wedi cael eu dosrannu.
- Cyfnewid cyfleoedd yn rhyngwladol ac yn ddomestig yn ystod y flwyddyn.
- Trosglwyddo cyfleoedd rhwng blynyddoedd (bancio a benthyca).

- Pysgota heb ganiatâd a chosbau.

- Symudiadau cychod rhwng dalgylchoedd awdurdodau polisi pysgodfeydd.

Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn diweddaru’r rheolau hyn o bryd i'w gilydd ar ôl ymgynghori â'r awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol eraill. Lle bo'n briodol, gall ymgynghori hefyd â'r diwydiant ac â rhanddeiliaid eraill yn ogystal ag â'r cyhoedd.

**Dyrannu cyfleoedd pysgota o fewn dalgylch pob awdurdod polisi pysgodfeydd**

4.2.1.27 Ar ôl dosrannu, mater i’r awdurdod polisi pysgodfeydd wedyn yw penderfynu sut i ddyrannu ei gyfran i'r diwydiant. Nodir y meini prawf a'r dulliau a ddefnyddir gan bob awdurdod yn ei QMR sydd ar gael i'r cyhoedd.

4.2.1.28 Bydd yr awdurdod polisi pysgodfeydd perthnasol yn diweddaru’r rheolau hyn o bryd i'w gilydd. Lle bo'n briodol, gall ymgynghori â'r awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol eraill, y diwydiant a rhanddeiliaid eraill yn ogystal â'r cyhoedd.

4.2.1.29 Yn unol ag adran 25(1) a (2) o'r Ddeddf, bydd pob awdurdod pysgodfeydd cenedlaethol yn cyhoeddi ac yn defnyddio meini prawf tryloyw a gwrthrychol i ddyrannu cyfleoedd pysgota. Ystyrir yr amcanion pysgodfeydd a ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd, yn benodol:

- Effaith pysgota ar yr amgylchedd;

- Hanes cydymffurfio â gofynion y rheoliadau pysgota;

- Cyfraniad pysgota i'r economi leol;

- Lefelau dal hanesyddol.

4.2.1.30 Bydd gofyn i’r meini prawf a gyhoeddir gan yr awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol geisio cymell hefyd:

- defnyddio offer pysgota mwy detholus, a

- defnyddio technegau pysgota a chychod sy'n cael llai o effaith ar yr amgylchedd (er enghraifft, yn defnyddio llai o ynni, neu’n achosi llai o ddifrod i gynefinoedd).

Bydd pob awdurdod pysgodfeydd cenedlaethol yn datblygu’r meini prawf mewn cydweithrediad â’r diwydiant a rhanddeiliaid eraill. Caiff hyn ei adolygu’n

rheolaidd. Mater i bob awdurdod polisi pysgodfeydd fydd penderfynu sut y caiff ei feini prawf eu defnyddio i rannu cyfleoedd pysgota.

### 4.2.2 Stociau heb Gwota




4.2.2.1 Yn ogystal â'r cyfleoedd pysgota hynny yr ydym yn eu rheoli drwy gwota a dyraniadau, gallwn reoli stociau heb gwota hefyd, drwy osod terfynau ar ymdrech neu ddalfeydd lle bo gofyn, cau pysgodfeydd a mesurau technegol. Rydym yn rheoli llawer o'r stociau hyn ar y cyd â'r UE. Bydd y DU yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu ei dull ei hunan o'u rheoli, yn unol â'r amcanion cynaliadwyedd, rhagofalus, ecosystem, tystiolaeth wyddonol a newid hinsawdd yn y Ddeddf. Byddwn hefyd yn ceisio datblygu strategaethau aml-flwydd ar gyfer gwarchod a rheoli stociau heb gwota drwy'r SCF. Bydd cyfnewid data rheoli pysgodfeydd yn helpu'r DU a'r UE i ddeall yn well y stociau y maen nhw'n eu rhannu ac i lunio strategaethau rheoli.

4.2.2.2 Bydd y drefn a ddefnyddir gan y DU i reoli stociau heb gwota yn nyfroedd y DU yn llywio ein safiad wrth negodi strategaethau aml-flwydd ar gyfer eu gwarchod a'u rheoli yn y dyfodol.

4.2.2.3 Ar gyfer stociau heb gwota nad ydynt yn destun trafod rhyngwladol, bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn defnyddio'r drefn rheoli pysgodfeydd a ddisgrifir yn adran 4.1 ac yn unigol neu gyda'i gilydd, byddan nhw'n rhoi mesurau priodol ar waith i reoli gweithgarwch pysgota stociau heb gwota yn well. Bydd hyn yn cynnwys ystyried sut i gynaeafu'r stociau hyn yn gynaliadwy, gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael a bod yn rhagofalus lle bo'n briodol. Gellir nodi mesurau ar gyfer stociau penodol heb gwota mewn FMPs neu baratoi dogfennau polisi amgen ar eu cyfer, fel bo'n briodol.

### 4.2.3 Cysylltiadau Rhyngwladol Ehangach




4.2.3.1 Yn ogystal â'i gweithgareddau ar RFMOs, a ddisgrifir ym mharagraff 4.2.1. 22 uchod, mae'r DU yn cymryd rhan amlwg mewn trafodaethau a chyfarfodydd ynghylch rheoli pysgodfeydd yn gynaliadwy yn y Cenhedloedd Unedig, yn Sefydliad Bwyd ac Amaeth y Cenhedloedd Unedig ac yn y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. Mae'r trafodaethau hyn a'r ddeddfwriaeth sy'n deillio ohonynt yn cyfrannu at amcanion cynaliadwyedd, rhagofalus, ecosystem, tystiolaeth wyddonol a newid hinsawdd y DU.

4.2.3.2 Fel gwlad arfordirol gyfrifol ac arweinydd ym maes pysgodfeydd cynaliadwy, bydd y DU yn cymryd rhan amlwg yn y ffora rhyngwladol hyn i rannu arfer gorau

â'r byd a phwyso am reolaeth effeithiol ar weithgareddau pysgota ar y môr mawr. Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn ei helpu â'i chysylltiadau â'r ffora rhyngwladol hyn lle byddwn yn hyrwyddo rheoli pysgodfeydd at safonau uchel. Wrth wneud, byddwn yn hyrwyddo, lle bo'n briodol, egwyddorion ein hamcanion ar gyfer pysgodfeydd. Er enghraifft, hyrwyddo'r defnydd cynaliadwy o stociau a'u gwarchod, a hwyluso cydweithredu rhyngwladol i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, i helpu i gyflawni'r amcanion rhagofalus, cynaliadwyedd, ecosystem a newid hinsawdd. Lle medrir, bydd cytundebau o'r fath hefyd yn helpu i gyflawni'r amcan budd cenedlaethol drwy ddod â manteision economaidd-gymdeithasol uniongyrchol neu anuniongyrchol i'r DU.

4.2.3.3 Mae'r DU wedi llofnodi Memoranda Cyd-ddealltwriaeth â Gwlad yr Iâ ac â'r Ynys Las i gydweithredu'n well mewn pysgodfeydd. Er enghraifft, trwy rannu arbenigeddau mewn rheoli pysgodfeydd yn gynaliadwy; annog cydweithio rhwng ein sectorau preifat; a chydweithredu mewn ymchwil wyddonol. Mae'r cytundebau hyn yn enghreifftiau o sut y bydd y DU yn cyflawni'r amcanion ar gyfer pysgodfeydd yn y cyd-destun rhyngwladol, sef yn bennaf yr amcanion cynaliadwyedd, rhagofalus, ecosystem, tystiolaeth wyddonol a newid hinsawdd gan weithredu fel gwlad arfordirol gyfrifol. Caiff egwyddorion tebyg eu hymgorffori mewn Memoranda Cyd-ddealltwriaeth yn y dyfodol.

### 4.2.4 Capasiti Pysgota

4.2.4.1 Wrth gyflawni'r amcan cynaliadwyedd, bydd yr awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol yn sicrhau bod capasiti pysgota eu fflyd yn cadw'r ddysgl yn wastad rhwng cynnal hyfywedd economaidd a chynnal iechyd stoc. Mae fflyd bysgota'r DU yn amrywiol, o longau treillio dyfnfor mawr i gychod bach 6m. Rhaid ystyried hyn wrth wneud penderfyniadau gan fod gan rannau gwahanol y fflyd anghenion a blaenoriaethau gwahanol. Bydd rhagdybiaeth yn erbyn neilltuo cyllid cyhoeddus ar gyfer cychod pysgota newydd lle bydd hynny'n cynyddu capasiti pysgota y tu hwnt i lefelau cynaliadwy.

### 4.2.5 Hawl i bysgota yn nyfroedd y DU

4.2.5.1 O ran hawl cychod pysgota'r DU i fynd i ddyfroedd y DU, mae'r Ddeddf yn cynnwys 'amcan mynediad cyfartal' i'w gymhwyso i bob polisi pysgodfeydd yn y dyfodol ledled y DU. Mae'r amcan hwn yn nodi na ddylai bod cyfyngiadau ar hawl cwch pysgota o'r DU i fynd i unrhyw ardal o fewn terfynau pysgodfeydd Prydain oherwydd lleoliad porthladd cartref y cwch pysgota neu gysylltiadau'r cwch pysgota neu ei berchnogion ag unrhyw le yn y DU.

4.2.5.2 Rhaid i'r awdurdodau polisi pysgodfeydd ystyried y JFS wrth roi polisïau ar waith a chynnal swyddogaethau. Mae rheidrwydd cyfreithiol ar bob cwch sy'n pysgota yn nyfroedd y DU gadw at y rheolau a'r rheoliadau a bennir gan yr awdurdodau

polisi pysgodfeydd perthnasol yn y dyfroedd hyn.  Bydd y rheolau a’r rheoliadau hyn yn cyd-fynd â’r amcanion cynaliadwyedd a mynediad cyfartal.

4.2.5.3 Bydd y DU yn parhau i barchu trefniadau voisinage o ran hawliau cychod i fynd i'w therfyn 0-6 milltir forol. Bydd gofyn i gychod o’r tu allan i'r DU sy’n manteisio ar y trefniadau hynny gydymffurfio â deddfwriaeth pysgodfeydd a mesurau rheoli sy'n berthnasol i gychod o’r DU sy’n pysgota yn yr ardal honno.

### 4.2.6. Monitro Pysgodfeydd a Gorfodi




4.2.6.1 Mae mesurau gorfodi mewn pysgodfeydd yn rhoi sicrwydd o gydymffurfio gan ennyn hyder yn y data am gynhyrchion pysgodfeydd a godir o ddyfroedd y DU. Mae data cywir yn caniatáu dadansoddi cadarn i gefnogi’r amcan ‘tystiolaeth wyddonol’.

4.2.6.2 Bydd yr awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol yn gweithio gyda'i gilydd i barhau i gyflawni ymrwymiad y DU i bysgota cynaliadwy drwy fesurau gorfodi effeithiol ar bob cwch yn nyfroedd y DU a chychod y DU, lle bynnag y maent yn pysgota yn y byd. Lle bo'n briodol, bydd yr awdurdodau gorfodi pysgodfeydd yn cydweithio i sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau ei gilydd.

4.2.6.3 Bydd pob awdurdod pysgodfeydd cenedlaethol yn rheoleiddio ac yn gorfodi pysgodfeydd gan ddefnyddio dulliau sy'n briodol ac yn gymesur i’w dyfroedd a'u pysgodfeydd. Bydd cyflwyno unrhyw drefn fonitro neu wyliadwriaeth newydd yn gymesur ac yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael.

4.2.6.4 Bydd awdurdodau gorfodi pysgodfeydd yn cydweithio lle bo'n briodol i sicrhau bod y mesurau gorfodi’n bodloni gofynion y ddeddfwriaeth sydd mewn grym a'r fframwaith cyfreithiol y maent yn gweithredu ynddynt, gan sicrhau lle bo'n ymarferol, eu bod yn gweithio mewn ffordd gyson a bod y trefniadau’n cael eu symleiddio.

4.2.6.5 Bydd awdurdodau gorfodi pysgodfeydd yn gwneud gwaith gorfodi ar sail gwybodaeth neu ar sail risg neu waith sy'n ofynnol oherwydd rhwymedigaethau rhyngwladol y DU. Caiff y rheoliadau priodol eu gorfodi yn unol â’r canllawiau sy’n gymwys i’r rheoleiddwyr.

4.2.6.6 Mae gwaith monitro a gorfodi effeithiol ar bysgodfeydd yn allweddol i sicrhau ein bod yn gwybod pa gychod sy’n pysgota yn nyfroedd y DU, pryd y maent yn nyfroedd y DU a faint o ddalfa sy’n cael ei chodi o ddyfroedd y DU. Mae hyn yn cefnogi'r holl amcanion pysgodfeydd, gyda phwyslais penodol ar yr amcanion cynaliadwyedd a rhagofalus.

### 4.2.7 Pysgota Anghyfreithlon, heb ei Gofnodi a heb ei Reoleiddio

1 3 5

4.2.7.1 Pysgota anghyfreithlon, heb ei gofnodi a heb ei reoleiddio (IUU) yw un o'r bygythiadau mawr i fywyd morol ac mae’n tanseilio ymdrechion i reoli pysgodfeydd yn effeithiol. Drwy fynd i'r afael â physgota o’r fath, bydd y DU yn cefnogi’r amcanion cynaliadwyedd, ecosystem a budd cenedlaethol.

4.2.7.2 Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn gweithio gyda'i gilydd i barhau i wireddu ymrwymiad y DU i bysgota cynaliadwy drwy sicrhau rheolaeth effeithiol ar ein dyfroedd a mynd i'r afael â physgota anghyfreithlon ac ati dramor. Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn cydweithio i sicrhau bod eu mesurau rheoli a’u rheoliadau IUU yn effeithiol ac yn gymesur.

4.2.7.3 Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn gweithio gyda'i gilydd i lunio cynlluniau ar gyfer rheoli gweithgarwch pysgota yn nyfroedd y DU ac i fynd i'r afael â physgota IUU. Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn trafod â rhanddeiliaid wrth ddatblygu’r cynlluniau hyn. Mae sicrhau bod modd olrhain cynnyrch pysgod yn allweddol i’r ddau faes. Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu mesurau Monitro, Rheoli a Gwyliadwriaeth cadarn. Bydd y mesurau hyn yn sicrhau bod y data am ddalfeydd yn gywirach, yn annog pobl i beidio â thaflu'n anghyfreithlon, ac yn ein helpu i ddeall pam mae rhywogaethau sensitif yn cael eu dal fel sgil-ddalfa a pha mor aml y mae hynny’n digwydd.

4.2.7.4 I gefnogi ein sector bwyd môr, bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod ein hallforwyr yn gallu bodloni gofynion pysgota IUU gwledydd eraill yn effeithlon ac yn effeithiol.

4.2.7.5 I fynd i’r afael â physgota anghyfreithlon, heb ei gofnodi a heb ei reoleiddio, bydd yr awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol yn cydweithredu i reoli Rhestr y DU o Gychod sy’n Pysgota’n Anghyfreithlon, heb Gofnod a heb eu Rheoleiddio a Rhestr y DU o Wledydd nad ydynt yn cydweithredu yn y frwydr yn erbyn pysgota o’r fath.

### 4.2.8 Lleihau Sgil-ddalfeydd ac Osgoi Dal Rhywogaethau Sensitif

1 3 4 5

4.2.8.1 Mae’r amcanion yn y Ddeddf o ran cynaliadwyedd a sgil-ddalfeydd yn tanlinellu ymrwymiad y DU i fynd i’r afael â gwir resymau dros daflu pysgod yn ôl i’r môr

yn anghyfreithlon.  Mae'r awdurdodau polisi pysgodfeydd wedi ymrwymo i leihau’r sgil-ddalfa, gan gynnwys pysgod sy'n llai na'r maint cyfeirio cadwraethol lleiaf, ac i daflu llai o bysgod yn ôl i’r môr.  Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn gweithio at ddogfennu pysgodfeydd yn llawn a sicrhau bod pob dalfa yn cael ei chofnodi’n gywir. Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn gweithio hefyd mewn partneriaeth â rhanddeiliaid i ddatblygu ystod o fesurau rheoli i helpu pysgotwyr i osgoi rhywogaethau cwota nad ydyn nhw am eu dal er mwyn lleihau cyfran y boblogaeth pysgod a leddir heb eisiau trwy bysgota ac a deflir yn ôl i’r môr. Caiff polisïau cenedlaethol eu datblygu gan yr awdurdodau polisi pysgodfeydd fydd yn esbonio sut yr eir ati i leihau’r sgil-ddalfa.

4.2.8.2 Gall pob awdurdod pysgodfeydd cenedlaethol ddatblygu eithriadau priodol yn eu dyfroedd o ran taflu pysgod yn ôl i’r môr. Bydd yr eithriadau hyn yn caniatáu lefel fach o daflu yn ôl ar gyfer rhai stociau, mewn rhai pysgodfeydd, o dan amgylchiadau penodol. Bydd unrhyw eithriadau newydd, neu newid i unrhyw eithriadau, yn dal i fod yn seiliedig ar y dystiolaeth wyddonol orau sydd ar gael.

4.2.8.3 Mae'r awdurdodau polisi pysgodfeydd yn ymrwymo bod y DU yn tynnu o’i TAC y gyfran honno o’r eithriadau y mae eu cychod yn eu defnyddio yn nyfroedd y DU neu ddyfroedd allanol (yn unol â’r trefniadau rhyngwladol perthnasol).

4.2.8.4 Mae'r awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol wedi ymrwymo i weithio gyda'r diwydiant pysgota i gyflawni’r amcan ecosystem a lle medrir, i roi stop ar sgil-ddal a rhwydo rhywogaethau sensitif gan gynnwys teulu’r morfil (morfilod, dolffiniaid a llamhidyddion), morloi, adar môr, a siarcod a morgathod. Mae’r awdurdodau polisi pysgodfeydd yn cydnabod mai eu dal fel sgil-ddalfa yw un o’r bygythiadau mwyaf i’r rhywogaethau hyn ac mae sicrhau bod pysgota’n amgylcheddol gynaliadwy i’r tymor hir yn rhan bwysig o’r amcan ynghylch cynaliadwyedd.

4.2.8.5 Mae Menter Lleihau Sgil-ddalfeydd y DU (BMI) a gyhoeddwyd ym mis Awst 2022 yn esbonio sut y bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn gwireddu’r amcan ynghylch ecosystemau, hynny trwy wella’n dealltwriaeth, gwaith monitro ac ymchwil wyddonol, nodi’r mannau lle mae sgil-ddalfeydd yn gyffredin, mabwysiadu mesurau lliniaru effeithiol, helpu pysgotwyr i roi mesurau lliniaru ar waith a gweithio gyda phartneriaid rhyngwladol i leihau'r sgil-ddalfa o rywogaethau sensitif trwy’r byd. Mae'r camau gweithredu yn y BMI yn cynnwys buddsoddi mewn rhaglenni monitro i lenwi bylchau gwybodaeth am sgil-ddalfeydd a defnyddio mwy o dechnegau monitro, targedu’r gwaith monitro a lliniaru yn y mannau lle mae sgil-ddalfeydd yn gyffredin, cynyddu’r defnydd o fesurau lliniaru effeithiol, a chefnogi datblygiad technolegau a dulliau newydd lle bo hynny'n briodol fel cosbau, newidiadau technegol i offer ac offer amgen. Bydd y polisïau a'r camau gweithredu hyn yn helpu i gyflawni'r amcan ynghylch tystiolaeth wyddonol drwy gasglu a rhannu data sy'n berthnasol i reoli pysgodfeydd a seilio penderfyniadau rheoli ar y cyngor gwyddonol gorau sydd

ar gael. Bydd awdurdodau polisi pysgodfeydd yn nodi'r camau nesaf tuag at roi’r BMI ar waith.

4.2.8.6 Lle bo angen, bydd yr awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol yn gweithio gyda’r diwydiant a rhanddeiliaid i ddatblygu a llunio polisïau ehangach i gyflawni'r amcanion hyn neu bolisïau o fewn yr FMP ar gyfer pysgodfeydd penodol.

### 4.2.9 Dadleoli




4.2.9.1 Mae'r awdurdodau polisi pysgodfeydd yn cydnabod bod llawer yn defnyddio’r môr, a bod hynny’n gallu arwain at orfodi pysgotwyr i bysgota mewn mannau eraill. Gall ‘adleoli’ o’r fath gael effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol negyddol. Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn gweithio gyda defnyddwyr y môr, gan gynnwys y diwydiant pysgota, i nodi a datrys problemau adleoli.

4.2.9.2 Bydd hynny’n cynnwys, er enghraifft, dod i ddeall yn well ble mae pysgota’n digwydd a ble mae’r ardaloedd pwysicaf i bysgodfeydd allweddol, rhoi ystyriaeth well i weithgareddau pysgota cynaliadwy mewn cynlluniau gofodol a defnyddio’n moroedd trwy gynlluniau gofodol morol, a lle bo’n bosibl ac yn briodol, helpu i gydleoli gweithgareddau yn y môr; a phan na fydd modd osgoi effeithiau, ceisio cael y sector pysgota i newid er lles y wlad.  Bydd hyn oll hefyd yn cyflawni’r amcanion ynghylch cynaliadwyedd ac ecosystemau.

### 4.2.10 Cynllunio Gofodol Morol




4.2.10.1 Mae UKMPS, ynghyd â'r cynlluniau morol, yn fframweithiau ar gyfer gwneud penderfyniadau er lles y wlad sy’n seiliedig ar dystiolaeth wyddonol fydd yn golygu gallu rheoli gweithgareddau yn yr ardal forol mewn ffordd sy'n diogelu'r amgylchedd morol, tra'n cefnogi datblygu cynaliadwy. Un o brif egwyddorion UKMPS yw sicrhau bod gwahanol weithgareddau yn ategu’i gilydd a nodi cyfleoedd ar gyfer cydfodoli. Mae'r Deddfau Morol[8] yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus wneud penderfyniadau awdurdodi neu orfodi yn unol â'r dogfennau polisi morol perthnasol (sef UKMPS ac unrhyw gynllun morol sydd mewn grym yn ardal y cynllun morol), oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall.

---

[8] Deddf y Môr a Mynediad i’r Arfordir 2009 (https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2009/23/section/9), Marine (Scotland) Act 2010 ([https://www.legislation.gov.uk/asp/2010/5/contents](https://www.legislation.gov.uk/asp/2010/5/contents)), a’r Marine Act (Northern Ireland) 2013 (https://www.legislation.gov.uk/nia/2013/10/section/1/enacted)

4.2.10.2 Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn sicrhau bod cynlluniau morol yn cynnwys polisïau sy'n ystyried pysgodfeydd, dyframaethu a chynefinoedd sy’n cynnal stociau pysgod (meithrin neu silio). Gan fod gofyn ymgynghori ar gynlluniau morol drafft, mae'r broses cynllunio morol hefyd yn rhoi cyfle i ddefnyddwyr morol ddweud eu dweud ar sut y dylid rheoli'r ardal forol.

4.2.10.3 Byddwn yn ystyried y berthynas rhwng cynlluniau gofodol morol a chynlluniau rheoli pysgodfeydd a sut y gall y polisïau ategu ei gilydd i sicrhau defnydd mwy effeithiol o’r môr a’i adnoddau.

### 4.2.11 Ardaloedd Morol Gwarchodedig (AMG)

3 4 8

4.2.11.1 Wrth weithio i sicrhau statws GES, bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn parhau i ddatblygu'r rhwydwaith o safleoedd gwarchodedig yn y môr i ddiogelu cynefinoedd a rhywogaethau penodol o bwys cenedlaethol neu ryngwladol. Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn sicrhau bod gweithgareddau pysgota'n cael eu rheoli i AMG ac unrhyw Ardaloedd Morol Gwarchodedig Uwch yn y dyfodol, allu cyflawni eu hamcanion cadwraethol a chynnal cydlyniant ecolegol y rhwydwaith. Caiff safleoedd eu monitro i asesu eu cyflwr a bydd rheolwyr pysgodfeydd a rheoleiddwyr eraill yn gorfodi cydymffurfiaeth ag unrhyw fesurau rheoli. Bydd hyn yn cyfrannu at yr amcanion ynghylch ecosystemau, tystiolaeth wyddonol a newid hinsawdd.

### 4.2.12 Sbwriel Môr ac Offer pysgota sydd wedi dod i ddiwedd ei oes

1 3 4

4.2.12.1 Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn parhau i helpu’r diwydiant i leihau ei effaith ar yr amgylchedd, gan hefyd hyrwyddo mentrau’r diwydiant fel Pysgota am Sbwriel i wneud y sector cyfan yn fwy cynaliadwy a diogelu’n hamgylchedd morol. Trwy wneud, bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn helpu i gyflawni’r amcanion cynaliadwyedd, ecosystemau a thystiolaeth wyddonol.

4.2.12.2 Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn cefnogi twf yr economi gylchol drwy anelu at gasglu mwy o offer pysgota sydd wedi dod i ddiwedd ei oes a'i reoli'n gynaliadwy yn unol â'r hierarchaeth wastraff. Hefyd, bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn annog dyluniad cylchol ar offer pysgota a dyframaethu rhag eu colli, er mwyn ei gwneud yn haws casglu offer coll a lleihau effaith amgylcheddol colli offer, ynghyd â gwella cyfleoedd i ailddefnyddio, trwsio ac ailgylchu. Bydd hyn yn helpu i gyflawni’r amcanion cynaliadwyedd, ecosystemau a thystiolaeth wyddonol. Mae’r awdurdodau polisi pysgodfeydd wedi sefydlu Grŵp Llywio ar lefel y DU o arbenigwyr o’r diwydiant o dan gyd-gadeiryddiaeth, gyda rhanddeiliaid y diwydiant i drafod sut i newid i fod yn economi gylchol, mewn ffordd sy’n cefnogi cymunedau pysgota.

### 4.2.13 Dyfroedd Arfordirol a Dyfroedd Croyw

1 3

4.2.13.1 Mae GES yn ei gwneud yn ofynnol i ni reoli'n hamgylchedd morol ar sail ecosystem, yn unol â'r amcanion ecosystemau a chynaliadwyedd. O'r herwydd, mae'r UKMS yn cynnwys nifer o fesurau trawsbynciol sy'n adlewyrchu'r cysylltiadau rhwng pysgod morol a rheoli amgylcheddau arfordirol ac afonydd. Mae'n bwysig bod y JFS hwn yn cydnabod y berthynas honno hefyd.

4.2.13.2 Mae cynefinoedd arfordirol ac afonydd yn hanfodol i fôr iach a physgodfeydd ffyniannus. Maen nhw'n bwysig i gylch bywyd nifer fawr o rywogaethau pysgod sy'n werthfawr i'n sector bwyd môr masnachol a hamdden. Er enghraifft, mae morfeydd heli ac aberoedd llanw yn gynefin meithrin a magu draenogiaid y môr, sewin a rhai rhywogaethau o ledod. Hefyd, mae angen i rywogaethau mudol fel eog, sewin a llyswennod allu pasio'n ddi-rwystr trwy systemau afonydd i gwblhau rhannau hanfodol o'u cylchoedd bywyd. Mae ansawdd dŵr da yn hanfodol er mwyn cynnal cynefinoedd arfordirol iach a dyframaeth mewn aberoedd ac ardaloedd arfordirol,

4.2.13.3 Mae'r awdurdodau polisi pysgodfeydd yn cydnabod bod angen y rhaglen o fesurau yn yr UKMS a'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd i reoli amgylcheddau ein harfordir ac afonydd dŵr croyw a'u heffeithiau ar iechyd ein hamgylchedd morol. Byddant yn cyfrannu at yr amcanion cynaliadwyedd ac ecosystemau. Gallen nhw gynnwys, er enghraifft, gwelliannau i ansawdd dŵr mewn MPAs a ffermydd pysgod cregyn a fyddai'n helpu i fynd i'r afael â phroblemau yn rhannau is yr afon a ffermydd pysgod cregyn, gweithredu i helpu pysgod sy'n mudo rhwng afon a môr ac ystyried rhywogaethau pysgod morol sy'n cael eu hystyried yn sensitif o dan yr UKMS wrth reoli'r arfordir.

### 4.2.14 Newid Hinsawdd

2 3 4 8

4.2.14.1 Wrth ymateb i'r newid yn yr hinsawdd, mae gofyn i'r sector bwyd môr ystyried sut y gall leihau (neu liniaru) y newid yn yr hinsawdd, a sut y gall y sector addasu i hinsawdd sy'n newid.

4.2.14.2 Mae angen ystyried sut y gallwn liniaru'r newid yn yr hinsawdd ar draws y gadwyn gyflenwi. Bydd yr awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol yn gweithio i ddeall cyfraniad carbon gwahanol rannau'r gadwyn gyflenwi. Mae'n hanfodol nodi newidiadau technolegol, ymddygiadol a rheoleiddiol ymarferol i liniaru a lleihau allyriadau ar draws y gadwyn gyflenwi pysgodfeydd i gefnogi'r newid tuag at ddyfodol carbon sero net a helpu i gyflawni'r amcan newid hinsawdd.

4.2.14.3 Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi atebion arloesol i leihau allyriadau carbon trwy wella injans (cyn belled nad ydyn

nhw'n cynyddu capasiti'r fflyd yn uwch na lefelau cynaliadwy), dewis offer a thechnoleg gwyrdd, a nodi cyfleoedd i leihau allyriadau cychod trwy ddefnyddio tanwyddau amgen. Bydd y mesurau hyn yn lleihau cyfraniad gweithgareddau pysgota at y newid yn yr hinsawdd gan helpu drwy hynny i gyflawni'r amcan newid hinsawdd. Byddwn hefyd yn cefnogi arloesedd i osgoi crafu gwely'r môr, gan gyfrannu at yr amcanion ynghylch ecosystemau a thystiolaeth wyddonol.

4.2.14.4 Mae holl wledydd y DU yn cytuno bod atebion sy'n seiliedig ar natur yn bwysig i daclo'r newid yn yr hinsawdd ac osgoi ei effeithiau. Mae'r awdurdodau polisi pysgodfeydd yn cydnabod bod diogelu ac adfer cynefinoedd carbon glas a'u rheoli'n gynaliadwy yn ateb sy'n seiliedig ar natur a all ein helpu i addasu i'r newid yn yr hinsawdd a'i wrthsefyll, ynghyd â dal a storio carbon a diogelu bioamrywiaeth.

4.2.14.5 Bydd yr awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol yn gweithio gyda'r gymuned wyddonol i nodi bylchau yn sylfaen dystiolaeth carbon glas y DU, ac yn gweithio i lenwi'r bylchau hynny, gan gynnwys trwy Bartneriaeth Tystiolaeth Carbon Glas y DU a sefydlwyd yn 2022. Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd hefyd yn ymchwilio i effaith gweithgareddau pysgota a dyframaeth ar gynefinoedd carbon glas ac yn ystyried hyn wrth wneud penderfyniadau a llunio polisïau yn y dyfodol gan gydnabod bod hyn hefyd yn helpu i gyflawni'r amcanion ecosystem, tystiolaeth wyddonol, rhagofalus a newid hinsawdd.

4.2.14.6 I helpu i gyflawni'r amcan newid hinsawdd, bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn cefnogi ac yn annog mentrau gwirfoddol y diwydiant i ddatgarboneiddio ac i gynhyrchu a marchnata bwyd môr carbon isel yn well. Byddwn yn ceisio cefnogi arloesedd yn y diwydiant ac economi gylchol.

4.2.14.7 Rydym yn cydnabod bod gan ddyframaeth yn benodol rôl gadarnhaol bosibl o ran mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd drwy ddarparu ffynonellau cynaliadwy o brotein carbon isel o ansawdd uchel. Cydnabyddir hefyd gyfraniad posibl is-sectorau dyframaeth fel gwymon a physgod cregyn at ddal carbon a chyfraniad dyframaeth at yr economi las. Fel gyda phob sector, bydd disgwyl i'r sector dyframaeth addasu i amgylchedd a hinsawdd sy'n newid.

4.2.14.8 Rhaid i'r sector bwyd môr addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd i lwyddo yn yr hirdymor ac i alinio â'n hymrwymiadau o ran yr hinsawdd. Mae'r newid yn yr hinsawdd eisoes yn cael effaith, gyda thystiolaeth o newidiadau yng nghymunedau pysgod dyfroedd y DU, fel ymddangosiad pysgod o ddyfroedd cynnes a dirywiad yn niferoedd pysgod dŵr oer.

4.2.14.9 Bydd yr awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol yn parhau i weithio i ddeall a thaclo effeithiau hinsawdd sy'n newid ar rywogaethau, cynefinoedd a physgodfeydd y môr, fel y'u hamlygwyd gan Asesiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd o Risgiau Newid Hinsawdd, drwy fecanweithiau fel y Bartneriaeth Effeithiau'r Newid yn yr Hinsawdd ar y Môr. Byddwn hefyd yn sicrhau bod y

canfyddiadau ar gael yn rhwydd i randdeiliaid yr effeithir arnynt a'u bod yn cael eu hymgorffori yn ein prosesau penderfynu. Lle bo hynny'n berthnasol, byddwn yn defnyddio'n partneriaethau rhyngwladol gan gynnwys y Gynghrair Ryngwladol i Ymladd yn erbyn Asideiddio'r Cefnforoedd i gefnogi'r gwaith hwn.

4.2.14.10 Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn gweithio mewn partneriaeth â'r sector bwyd môr i ddeall effeithiau newid hinsawdd ac i gyd-ddatblygu technegau rheoli pysgodfeydd ar gyfer addasu i'r hinsawdd er mwyn gallu parhau i bysgota'n gynaliadwy am stociau y mae'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio arnynt, gan drwy hynny gyfrannu at yr amcanion newid hinsawdd

4.2.14.11 Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn cydweithio i fanteisio ar y cyfleoedd a wynebu'r heriau a all godi wrth i'r hinsawdd newid, megis datblygiadau ar gyfer dal pysgod newydd neu arallgyfeirio o fewn dyframaethu. Ni ddylid manteisio ar y cyfleoedd hyn oni bai eu bod yn gydnaws â sicrhau statws GES ac ag ymrwymiadau rhyngwladol a bod marchnad ar gyfer y cynnyrch terfynol.

### 4.2.15 Dyframaethu




4.2.15.1 Mae dyframaethu'n bwysig ar lefel y DU a bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn gweithio gyda'i gilydd i helpu i gynnal twf cynaliadwy, i reoli ar sail ecosystem ac i gyflawni'r amcanion newid hinsawdd.

4.2.15.2 I'r perwyl hwnnw, mae'r awdurdodau polisi pysgodfeydd yn cefnogi twf cytbwys a chynaliadwy, o dan arweiniad y diwydiant, ym mhob is-sector dyframaethu. Bydd y twf yn seiliedig ar y wyddoniaeth orau sydd ar gael yn yr is-sector hwnnw a'r diwydiannau cysylltiedig sy'n amrywiol, economaidd hyfyw ac sy'n cyfrannu at ddiogelu cyflenwadau bwyd gan ar yr un pryd, gyfrannu at yr amcanion newid hinsawdd, ecosystem a chynaliadwyedd. Rydym yn cydnabod y gall y gwahanol is-sectorau dyframaethu a geir yng ngwledydd y DU â'u dulliau tyfu amrywiol, ryngweithio i raddau gwahanol â'u hecosystemau a chyd-ddefnyddwyr yr amgylchedd. Felly, bydd angen i unrhyw ddatblygu ac ehangu ar unrhyw ran o'r sector dyframaethu fod yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael a'r fframweithiau rheoli strategol a rheoliadau perthnasol, megis cynllunio morol, a hynny o fewn terfynau amgylcheddol.

4.2.15.3 Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn cydweithio ar ddyframaethu lle bo gofn i gyflawni nodau cyffredin a byddan nhw'n gweithio gyda'i gilydd i gynnal y safonau iechyd a lles anifeiliaid dyfrol sydd wedi'u mabwysiadu

### 4.2.16 Pysgota Hamdden yn y Môr



4.2.16.1 Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn parhau i weithio gyda'i gilydd - lle bo'n bosibl, yn ymarferol ac yn briodol - i sicrhau bod pysgota hamdden yn y môr yn gynaliadwy o safbwynt amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd gan gyfrannu felly at gyflawni’r amcan ar gynaliadwyedd. Byddwn, lle medrwn, yn ystyried pysgota hamdden wrth reoli pysgodfeydd yn ehangach.

4.2.16.2 Byddwn yn parhau i ategu hyn trwy gasglu data ar ddalfeydd, eu heffaith economaidd a data penodol am rywogaethau’r sector pysgota môr hamdden a sicrhau bod buddiannau hamdden ymhlith y rheini y trafodir â nhw wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid. Wrth wneud, byddwn yn cyfrannu at gyflawni’r amcanion ynghylch ecosystemau a thystiolaeth wyddonol.

## 4.2.17 Cynhyrchu, Marchnata a Bwyta Bwyd Môr

1 3 7 8

**Diwydiant a chymunedau cydnerth**

4.2.17.1 Mae’r sector bwyd môr yn ffynhonnell gwaith bwysig mewn rhai ardaloedd yn y DU, yn enwedig mewn cymunedau arfordirol, lle ceir yn aml hanes cyfoethog o bysgota ac o gynhyrchu a phrosesu bwyd môr o ansawdd uchel. Mae cynhyrchu bwyd yn y wlad hon yn ffordd bwysig hefyd o greu cydnerthedd cenedlaethol mewn byd ansicr.

4.2.17.2 Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn ceisio sicrhau bod pysgodfeydd arfordirol a’r cymunedau sy’n elwa arnynt yn gallu addasu i anghenion y sector bwyd môr a'i ddiwydiannau cysylltiedig, heddiw ac yfory, gan gydnabod y ddeinameg leol wahanol â diwydiannau eraill, sydd er hynny yn eu hategu. Cydnabyddir potensial y diwydiant pysgota i gynnal a gwella bywoliaethau mewn cymunedau glan-môr.

**Gweithlu – sgiliau a safonau gwaith**

4.2.17.3 Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn gweithio gyda rhanddeiliaid yn y sector bwyd môr er mwyn i bobl allu ymuno â’r diwydiant ym mhob cam o'u gyrfa, gyda hyfforddiant ardystiedig, cynllunio olyniaeth ac amodau gwaith gwell a safonau i helpu i ddatblygu llwybr gyrfa deniadol. Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn ceisio gwella canfyddiad y cyhoedd o'r diwydiant fel lle i weithio a llwyddo a denu newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant. Bydd hynny’n cynnwys gweithio gyda’r sector i bobl allu mynd yn eu blaenau o fewn y diwydiant ac i ddatblygu. I gyfrannu at hynny, bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn gweithio gyda’i gilydd i gefnogi iechyd, diogelwch a lles pawb sy’n gysylltiedig â’r sector bwyd môr, yn enwedig eu diogelwch ar y môr.

4.2.17.4 Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn gweithio gyda'r sector bwyd môr i ddeall a hyrwyddo'r arferion talu mwyaf addas a theg i ddenu newydd-ddyfodiaid.

4.2.17.5 Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn annog y sector i roi mesurau ar waith i wneud rolau'n fwy deniadol a thrwy hynny sicrhau cyflenwad o lafur domestig i weithio yn y sector bwyd môr, ac i drin pawb sy'n gweithio yn y sector yn deg.

**Cadwyni cyflenwi**

4.2.17.6 Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn ceisio cryfhau cadwyn gyflenwi'r sector bwyd môr drwy:

- Annog cydweithio ac arloesi ar draws y gadwyn gyflenwi i'w diogelu at y dyfodol ac i ymateb i gyfleoedd neu heriau marchnad fwyd ddeinamig - er enghraifft, annog cyfleoedd i sicrhau arbedion drwy rannu gwybodaeth am arfer gorau a manteision cydweithio.

- Tynnu sylw at fanteision bwyta bwyd môr o farchnadoedd domestig, ond gan gadw golwg ar fudd economaidd masnach ryngwladol.

- Bod yn dryloyw a thracio cynnyrch drwy ddefnyddio Dangosyddion Cynaliadwyedd ac Ansawdd i farchnata pysgodfeydd nodedig a'u cynnyrch.

**Prosesu ein cynnyrch**

4.2.17.7 Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd am i'r sector prosesu allu ymateb i'r diwydiant pysgota a dyframaethu a newidiadau yn ymddygiad defnyddwyr a bod yn fwy cynaliadwy a chydnerth drwy fanteisio ar gyfleoedd i newid ac arloesi cyn i ddatblygiadau yn y diwydiant ddigwydd. Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn parhau i helpu mewnforion bwyd môr, gan gydnabod eu bod yn bwysig i'r sector prosesu bwyd.

**Marchnadoedd – gwerthu a marchnata ein cynnyrch**

4.2.17.8 Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn hyrwyddo bwyd môr lleol - gwyllt ac wedi'i ddyframaethu – fel ffynhonnell protein iach, carbon isel a chynaliadwy bosibl; ac yn ceisio gwella ymwybyddiaeth defnyddwyr iddyn nhw allu gwneud dewisiadau gwybodus. Bydd hefyd yn annog mwy o fwyta ar fwyd môr y DU fel opsiwn iach ac yn hyrwyddo marchnad ddomestig lwyddiannus ar gyfer bwyd môr y DU. Gan gydnabod effaith marchnata, yn enwedig marchnata ac arloesi digidol, bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd, lle medrir, yn gweithio gyda'r diwydiant i gefnogi gweithgareddau sy'n hyrwyddo bwyd môr lleol a chynaliadwy yn effeithiol.

4.2.17.9 Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn gweithio gyda'r sector bwyd môr i gefnogi marchnad ffyniannus a chydnerth yn y DU sy'n annog pobl i fwyta pysgod sy'n cael eu ffermio yn y DU a physgod sy’n cael eu dal gan gychod y DU, hynny drwy addysg a hyrwyddo, gan dynnu sylw at ddull cyfrifol y DU o ddyframaethu a rheoli pysgodfeydd mewn ffordd gynaliadwy ar sail ecosystem.

4.2.17.10 Bydd yr awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol yn ceisio hwyluso'r gwaith o ddatblygu systemau labelu ac olrhain cadarn i gefnogi systemau achredu sy'n glir i'r defnyddiwr. Bydd hynny’n hyrwyddo bwyd môr.

4.2.17.11 Gan weithio ar y cyd lle medrir, bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn gweithio am farchnad ryngwladol ffyniannus sy'n sicrhau'r elw gorau a'r gwerth ychwanegol i'r diwydiant ond gan barchu yr un pryd yr amcanion cynaliadwyedd a newid hinsawdd.

4.2.17.12 Bydd yr awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol yn parhau i weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y marchnadoedd gorau posibl ar gael ar gyfer cynnyrch y sector bwyd môr, boed y rhain yn farchnadoedd newydd neu’n farchnadoedd sydd eisoes yn bodoli.

4.2.17.13 Bydd yr awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol yn gweithio gyda'r sector bwyd môr i fonitro'r capasiti a helpu i gynefino neu hyfforddi Swyddogion Ardystio er lles masnach ryngwladol.

4.2.17.14 Trwy'r polisïau hyn bydd yr awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol yn cyfrannu at gyflawni'r amcan budd cenedlaethol yn y Ddeddf drwy ddarparu ar gyfer diwydiant pysgota a sector bwyd môr economaidd hyfyw sy'n cefnogi busnesau bwyd môr y DU.

**Twf, arallgyfeirio ac arloesi**

4.2.17.15 Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn cefnogi cyfleoedd i arallgyfeirio i gryfhau cymunedau a’u helpu i ymateb yn well i anghenion y sector bwyd môr a'r diwydiannau cymorth cysylltiedig heddiw ac yfory, gan gydnabod y ddeinameg leol.

4.2.17.16 Mae'r awdurdodau polisi pysgodfeydd yn cydnabod uchelgais y cymunedau arfordirol i ddatblygu ac yn annog arallgyfeirio i sicrhau a chynyddu cyfleoedd er budd y sector bwyd môr.

4.2.17.17 Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn annog cydweithio rhwng y diwydiant, y byd academaidd a'r llywodraeth i gael hyd i gyfleoedd arloesol am lwyddiant economaidd cynaliadwy ac arallgyfeirio, gan gynnwys ffyrdd newydd o’i helpu i newid i fod yn ddiwydiant carbon isel, gan drwy hynny gyfrannu at yr amcan newid hinsawdd.

# 5. Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd

1 2 3 4 5 6 7 8

## 5.1 Cyflwyniad

5.1.1 Mae Deddf Pysgodfeydd (2020) yn diffinio Cynllun Rheoli Pysgodfa (FMP) fel dogfen sy'n disgrifio’r polisïau sydd wedi'u llunio i adfer neu gynnal un neu fwy o stociau pysgod môr at lefel gynaliadwy. Bydd pob cynllun yn nodi’r stoc(iau), y math o bysgota a'r dalgylch dan sylw.

5.1.2 Mae'r adran hon yn esbonio diben cyffredinol FMPs, gan gynnwys eu cysylltiad â'r amcanion ar gyfer pysgodfeydd a’r fframwaith ehangach ar gyfer rheoli pysgodfeydd. Mae Atodiad A yn rhestru FMPs arfaethedig gyda'u dyddiadau cyhoeddi.

5.1.3 Yr awdurdodau polisi pysgodfeydd fydd yn penderfynu pa FMPs sydd eu hangen a phwy ddylai eu paratoi gan weithio gyda’u cyrff cyflawni a’u rhanddeiliaid perthnasol i roi polisïau’r FMP ar waith.

5.1.4 Bydd FMP yn ystyried yr holl weithgareddau pysgota all effeithio ar y stoc y mae’r cynllun yn ymdrin â hi. Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn cydweithio â rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn y stoc honno wrth baratoi’r FMP.

5.1.5 Bydd pob FMP yn destun ymgynghoriad cyhoeddus cyn cael ei gyhoeddi'n ffurfiol gan yr awdurdodau polisi pysgodfeydd.

## 5.2 Beth yw Cynllun Rheoli Pysgodfa?

5.2.1 Mae’r FMP yn disgrifio’r polisïau ar gyfer diogelu cynaliadwyedd hirdymor ein stociau pysgod ar gyfer cenedlaethau heddiw ac yfory. Bydd yn gosod rhwymedigaethau ar yr awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol fydd yn cyflawni’r amcanion hyn.

5.2.2 Bydd pob FMP yn nodi’r mesurau a ddefnyddir i wireddu ei bolisïau. Gall y mesurau hynny gynnwys rheoliadau sy’n bod neu rai newydd, offerynnau statudol, mesurau technegol neu lwybrau anstatudol megis cynlluniau ymchwil, cytundebau gwirfoddol neu godau ymddygiad. Bydd yr union fecanweithiau a ddefnyddir yn dibynnu ar y polisïau a nodir yn y cynllun a lle y bo'n briodol, yn cael eu gorfodi gan yr awdurdod pysgodfeydd cenedlaethol perthnasol.

5.2.3 Bydd awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ystyried sut i baratoi FMPs, monitro eu heffeithiolrwydd a defnyddio'r cylchoedd

adolygu statudol i asesu cynnydd. Efallai y bydd FMPs yn edrych yn bur wahanol i'w gilydd, gan ddibynnu ar y bysgodfa neu'r ardal yr ymdrinnir â hi, a gallai FMP er enghraifft, ymdrin ag un rhywogaeth neu ddelio ag ardal benodol.

5.2.4 Mae gofyn i FMPs nodi a oes digon o dystiolaeth i allu asesu MSY y stoc. Os nad oes digon o dystiolaeth, rhaid i'r FMP nodi'r camau y mae'r awdurdod neu awdurdodau'n cynnig eu cymryd i gael hyd i'r dystiolaeth wyddonol sydd ei hangen i allu asesu MSY y stoc. Os na chynigir camau, bydd yr FMP yn esbonio pam a sut y caiff terfynau cynaliadwy neu brocsi arall eu pennu.

5.2.5 Rhaid i bob FMP nodi'r dangosydd perthnasol y bydd rheolwyr pysgodfeydd yn eu defnyddio i asesu effeithiolrwydd y cynllun. Bydd y dangosyddion hyn yn helpu i fonitro effeithiolrwydd yr FMP a'i gyfraniad at yr amcanion pysgodfeydd hynny sy'n berthnasol i'r cynllun. Lle bo'n briodol, bydd y dangosyddion hyn wedi'u clymu wrth dargedau gydag amserlen, yn unol â nodau a thargedau rheoli'r FMP.

5.2.6 Disgrifir sut y bydd yr awdurdod polisi pysgodfeydd yn defnyddio FMPs i wireddu ei uchelgeisiau yn y polisïau a ddisgrifir yn yr FMP. Prif sylw pob FMP fydd sut y gellir cynaeafu stociau yn gynaliadwy, yn y tymor hir. Ond, gellir estyn hyd a lled FMP i ystyried agweddau ehangach ar reoli pysgodfeydd sy'n ymdrin ag ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Bydd unrhyw gamau y gofynnir i reolwr y bysgodfa eu cymryd yn effeithio ar bob cwch yn y bysgodfa, a nodir unrhyw rwymedigaethau at gychod eraill y DU o dan yr amcan mynediad cyfartal. Dylai awdurdod polisi pysgodfeydd gynnwys targedau amser i gyrraedd eu nodau lle bo hynny'n briodol.

## 5.3 Penderfynu pa stociau i'w cynnwys mewn FMP

5.3.1 Mae'r awdurdodau polisi pysgodfeydd wedi nodi ar y cyd y stociau hynny yn nyfroedd y DU y gallai cynlluniau ymdrin â nhw, ar sail data ICES, cytundebau rhyngwladol a data ar laniadau yn y DU. Mae'r rhestr yn cynnwys stociau rhyngwladol sydd â chwota ac sydd heb gwota, ynghyd â stociau sy'n bodoli yn unig yn nyfroedd y DU nad ydym yn eu rheoli ar y cyd â gwledydd eraill

5.3.2 Mae pysgodfeydd yn targedu ystod o rywogaethau o gwmpas y DU. Er bod rhai rhywogaethau o bwys economaidd a diwylliannol sylweddol, mae llawer o rywogaethau nad ydyn nhw'n cael eu targedu'n aml, os o gwbl. Mae'r awdurdodau polisi pysgodfeydd yn defnyddio'r meini prawf canlynol i benderfynu a ddylai stoc gael ei chynnwys mewn FMP:

- Lle ceir risg o orbysgota sylweddol o beidio â'i rheoli, gan gynnwys cynlluniau adfer lle bo'u hangen, neu lle mae'r mesurau rheoli presennol wedi dyddio neu ddim yn bodloni'r nod rheoli
- Gwerth economaidd y stoc a chyfraniad economaidd a chymdeithasol y bysgodfa i gymunedau arfordirol

- Pwysigrwydd economaidd a chymdeithasol ehangach y stoc a'i physgodfeydd cysylltiedig, o ystyried ffactorau fel lefelau cyflogaeth, incwm lleol, manteision pysgota hamdden, cyfraniad at gymunedau arfordirol, llywodraethiant gyfreithiol a strwythurau rheoleiddio

- Arwyddocâd y stoc i'r ecosystem, gan gynnwys ffactorau fel effaith ei physgodfeydd ar yr ecosystem a'i pherthynas â rhywogaethau nad ydyn nhw'n rhai targed gan gynnwys rhywogaethau sy'n cael eu gwarchod

5.3.3 Mae'r stociau a ddangosir yn y rhestr FMPs yn Atodiad A yn bodloni un neu fwy o'r meini prawf a nodir yn 5.3.2 a barnwyd ei bod yn briodol eu cynnwys o fewn FMP. Mae adrannau 5.3.4, 5.3.5 a 5.3.6 yn esbonio pam nad yw stociau wedi'u cynnwys yn y rhestr FMPs.

5.3.4 Barnwyd nad yw'r stociau na chwasant eu cynnwys yn y rhestr yn bodloni'r meini prawf hyn. Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn cadw golwg ar y stociau nad ydyn nhw wedi'u cynnwys ac os bydd amgylchiadau stoc yn newid, ystyrir ei hychwanegu at FMP neu greu FMP newydd.

5.3.5 Mae rhai stociau pwysig sy'n peri pryder megis stociau môr dwfn, rhywogaethau tiwna o dan ICCAT a stociau fel llymrïod a swtanod Norwy a dargedir gan bysgodfeydd diwydiannol eisoes yn cael eu rheoli trwy fesurau rheoli cadwraeth ac nid ydynt wedi'u cynnwys mewn FMPs. Bydd awdurdodau polisi pysgodfeydd yn parhau i adolygu effeithiolrwydd y mesurau hyn, gan gynnwys ystyried a fyddai paratoi FMP yn ychwanegu at werth y gweithgareddau rheoli ar gyfer pysgodfeydd y stociau hyn.

5.3.6 Bydd pysgodfeydd newydd neu bysgodfeydd sy'n tyfu ar gyfer stociau nad ydynt wedi'u cynnwys mewn FMP yn cael eu hasesu gan ddefnyddio'r dull a ddisgrifir uchod. Lle bo'n briodol, bydd y stoc yn cael ei chynnwys mewn FMP neu FMP newydd i sicrhau bod y bysgodfa yn cael ei reoli'n briodol i liniaru risgiau amgylcheddol a sicrhau bod y bysgodfa yn gynaliadwy. Lle bo diffyg data, bydd polisi'n cael ei ddatblygu yn unol â'r dull rhagofalus.

5.3.7 Lle bo'n briodol, bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn paratoi ac yn cyhoeddi FMPs ar gyfer stociau masnachol pwysig a rennir â gwledydd eraill ac sydd o ddiddordeb i'r DU. Bydd y cynlluniau'n canolbwyntio ar y stoc fel y'i diffinnir gan gyrff gwyddonol fel ICES yn hytrach na'r unedau rheoli presennol.

5.3.8 Ar gyfer y stociau lle mae'r DU yn rhannu cyfrifoldeb rheoli â gwlad arfordirol arall, bydd FMPs yn helpu i bennu amcanion negodi'r DU ar gyfer y stociau hynny, tra'n cydnabod na all y DU gyflawni amcanion yr FMP ar ei phen ei hun.

## 5.4 Perthynas FMPs â'r Amcanion Pysgodfeydd

5.4.1 Paratowyd y rhestr FMPs yn Atodiad A gan yr awdurdodau polisi pysgodfeydd at ddibenion bodloni'r rhwymedigaeth a nodir yn adran 2(1)(b) o'r Ddeddf.

5.4.2 Mae perthynas uniongyrchol rhwng dyluniad a strwythur FMPs a'r amcanion cynaliadwyedd, rhagofalus, tystiolaeth wyddonol, ecosystem a mynediad cyfartal gan eu bod yn ymwneud â chynnal pysgodfeydd cynaliadwy, â chasglu a defnyddio tystiolaeth wyddonol ac yn effeithio ar bob cwch sy'n pysgota yn yr ardal dan sylw.

5.4.3 Gall FMPs fynd i'r afael hefyd â materion rheoli pysgodfeydd ehangach, gan ddibynnu ar nodau/targedau penodol y cynllun a gallant gyfrannu at un neu fwy o'r amcanion eraill ar gyfer pysgodfeydd.

## 5.5 Perthynas rhwng FMPs a'r Cynlluniau Rheoli Presennol

5.5.1 Mae Cynlluniau Amlflwydd (MAPs) yr UE (fel y'u dargedwir/diwygiwyd gan gyfraith y DU) yn parhau'n gymwys mewn moroedd gwahanol neu i rai rhywogaethau a, lle ceir digon o ddata gwyddonol am y rhywogaeth ar y rhestr, nodir trefniadau ar gyfer defnyddio'r stoc.

5.5.2 Bydd pob awdurdod polisi pysgodfeydd yn parhau i gynnal systemau ar gyfer rheoli pysgodfeydd ei ddalgylch gan ddefnyddio pwerau cyfreithiol sy'n bod eisoes ynghyd â'r pwerau newydd o'r Ddeddf. Ceir cynlluniau rheoli eisoes o dan y darpariaethau hyn sy'n rheoli rhai stociau a gweithgareddau pysgota. Nid oes gofyn ar hyn o bryd i droi'r cynlluniau hynny'n FMPs.

5.5.3 Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn ystyried pa elfennau, os o gwbl, yn MAPs yr UE y dylid eu cadw a'u hymgorffori yn y FMPs. Pan gyhoeddir FMPs, caiff MAPs yr UE eu diwygio neu eu dirymu os gwelir bod angen, er mwyn osgoi unrhyw wrthdaro yn y dyfodol â'r polisïau yn yr FMPs.

5.5.4 Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn ceisio sicrhau, lle bo'n bosibl, bod yr FMPs a ddatblygir yn cyd-fynd â'r Strategaethau Aml-Flwyddyn (MYSts) y cytunwyd arnynt gyda'r UE o dan delerau'r TCA. Byddant yn sicrhau bod FMPs, o leiaf yn osgoi gwrthdaro neu risg gyfreithiol. Gallai FMPs gymhwyso polisïau llymach neu fwy uchelgeisiol na'r hyn y cytunwyd arnynt mewn MYSt i adlewyrchu bwriad y DU i fynd i'r afael â materion rheoli ehangach yn ymwneud â'r amgylchedd, casglu tystiolaeth a llywodraethiant ein pysgodfeydd.

## 5.6 Asesu Pysgodfeydd Cynaliadwy

5.6.1 Defnyddir y data a'r cyngor sydd ar gael am bysgodfeydd i bennu targedau a therfynau dal ar gyfer pob stoc. Os oes llawer o ddata am y stoc a bod modd tracio newidiadau yn ei biomas, bydd y terfynau hyn yn nodi'r MSY. Defnyddir procsi  a chyngor rhagofalus ar gyfer stoc dlotach o ran data sy'n tracio amrywiadau yn ei biomas yn unig.

5.6.2 Nid oes digon o dystiolaeth ar hyn o bryd am bob stoc i allu pennu terfynau fel rhai MSY. Ni fydd yn ymarferol yn wyddonol nac yn bosibl yn ariannol casglu tystiolaeth o'r fath ar gyfer rhai rhywogaethau. Bryd hynny, bydd FMPs yn cynnwys y camau y bydd yr awdurdodau'n eu cymryd i ddatblygu'r hyn sydd ei angen i sicrhau bod y stoc yn cael ei chynaeafu'n gynaliadwy.

5.6.3 Wrth lunio polisïau i reoli gweithgarwch pysgota, bydd FMPs yn cydnabod pwysigrwydd diogelu a defnyddio'n gynaliadwy asedau naturiol y môr a'r gwasanaethau ecosystemau a ddarperir ganddynt. Bydd FMPs yn gwneud y defnydd gorau o'r dystiolaeth sydd ar gael, yn destun gwerthusiad gwyddonol, ac yn ystyried y risgiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd pysgota a reolir trwy'r FMP.

5.6.4 Gall FMPs ffurfio rhan o raglen UKMS o fesurau ar gyfer cyflawni GES a gall gynnwys camau gweithredu, lle bo hynny'n briodol, sy'n canolbwyntio ar risgiau i rannau penodol o'r ecosystem neu bwysau arni, er mwyn helpu i cyflawni GES.

5.6.5 Bydd rheoli gweithgarwch pysgota mewn ffordd gynaliadwy drwy FMPs yn cyfrannu'n uniongyrchol at sicrhau bod cynhyrchion bwyd môr yn dal i fod ar gael fel ffynhonnell fwyd bwysig o fewn cadwyn cyflenwi bwyd y DU.

5.6.6 Bydd angen i'r DU drafod dulliau generig a phenodol ar gyfer pennu terfynau cynaliadwy stociau a rennir â gwledydd eraill wrth ddatblygu FMPs a chytuno ar dargedau priodol drwy drafodaethau rhyngwladol. Bydd FMPs yn helpu i lywio safiad negodi'r DU, yn bennaf drwy nodi'n glir ein huchelgais i sicrhau stociau cynaliadwy.

## 5.7 Monitro ac Adolygu FMPs

5.7.1 Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn monitro'r FMP ar sail y dangosyddion perthnasol. Bydd effeithiolrwydd yr FMPs yn cael ei asesu'n rheolaidd a chyhoeddir y canlyniadau o leiaf bob tair blynedd yn adroddiad y JFS y mae'r Ddeddf yn gofyn amdano. Bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu rhoi gerbron deddfwrfeydd y DU ac yn nodi i ba raddau y mae'r polisïau yn yr FMPs wedi effeithio ar lefelau stociau yn y DU.

5.7.2 Bydd pob FMP yn cael ei adolygu o leiaf bob chwe blynedd neu cyn hynny os bydd tystiolaeth berthnasol, rhwymedigaethau rhyngwladol, neu ddigwyddiadau ehangach yn gofyn am newid y polisïau yn yr FMP.

# Atodiad A: Rhestr o’r Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd sydd yn yr arfaeth

Mae'r tabl isod yn rhestru'r Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd (FMPs) y bydd Gweinyddiaethau'r DU yn eu paratoi ac yn eu cyhoeddi. Mae'r tabl hwn yn nodi'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan adran 2 o Ddeddf Pysgodfeydd 2020. Dyma esboniad o bennawd pob colofn:

- Teitl yr FMP: Yr enw a ddewiswyd ar gyfer yr FMP.
- Amserlen paratoi a chyhoeddi: Yr amserlen ar gyfer paratoi a chyhoeddi’r FMP.
- Stoc(iau): Y stoc(iau) mae’r FMP yn delio â nhw– naill ai un stoc neu nifer o stociau.
- Ardal bysgota (isardaloedd ac adrannau ICES): Yr ardal(oedd) a ddaw o dan y cynllun. Isardaloedd ac adrannau ICES yw’r ardaloedd ystadegol sy'n cael eu defnyddio gan ICES wrth roi cyngor rheoli pysgodfeydd (gweler www.ices.dk/data/maps/pages/default.aspx).
- Cynllun ar y Cyd? ; A yw'r Cynllun Rheoli Pysgodfeydd yn gynllun ar y cyd rhwng awdurdodau pol;isi pysgodfeydd.
- Awdurdod(au) sy’n gyfrifol am baratoi a chyhoeddi cynllun: Yr awdurdod neu awdurdodau sy'n gyfrifol am baratoi a chyhoeddi'r cynllun. Gall fod hyd at bedwar awdurdod polisi pysgodfeydd yn gweithredu ar y cyd mewn cynllun.
- Awdurdod Trefnu: Yr awdurdod polisi pysgodfeydd fydd yn trefnu’r gwaith o baratoi a rheoli'r cynllun ar ran yr awdurdodau polisi pysgodfeydd eraill sy'n gweithredu ar y cyd.
- Rheswm nad yw ar y cyd: Y rheswm pam fod y cynllun yn cael ei baratoi gan yr awdurdod ar ei ben ei hun.

| Teitl yr FMP | Amserlen paratoi a chyhoeddi | Stoc(iau) | Ardal Bysgota (Isardaloedd ac adrannau ICES) | Ar y cyd? | Awdurdod(au) sy’n gyfrifol am baratoi a chyhoeddi cynllun | | | | Awdurdod Trefnu | Rheswm nad yw ar y cyd? |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | DAERA | Defra | Marine Scotland | Llyw. Cymru | | |
| Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Penfras Môr y Gogledd | 2022 - 2024 | Penfras | Môr y Gogledd a Dwyrain y Sianel (4, 7d) | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Marine Scotland (yr Alban) | |
| Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Penfras Arfordir Gorllewin yr Alban | 2022 - 2024 | Penfras | Arfordir Gorllewin yr Alban (6a) | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Marine Scotland (yr Alban) | |
| Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Penfras Cefnfor Iwerydd | 2022 - 2024 | Penfras | Rockall, Gogledd-ddwyrain Cefnfor Iwerydd (6b) | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Marine Scotland (yr Alban) | |
| Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Hadog Môr y Gogledd ac Arfordir Gorllewin yr Alban | 2022 - 2024 | Hadog | Môr y Gogledd ac Arfordir Gorllewin yr Alban (4, 6a) | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Marine Scotland (yr Alban) | |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Hadog Cefnfor Iwerydd | 2022 - 2024 | Hadog | Rockall, Gogledd-ddwyrain Cefnfor Iwerydd (6b) | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Marine Scotland (yr Alban) | |
| Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Gwyniaid Arfordir Gorllewin yr Alban | 2022 - 2024 | Gwyniad môr | Arfordir Gorllewin yr Alban (6) | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Marine Scotland (yr Alban) | |
| Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Gwyniaid Môr y Gogledd | 2022 - 2024 | Gwyniad môr | Môr y Gogledd a Dwyrain y Sianel (4, 7d) | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Marine Scotland (yr Alban) | |
| Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Chwytlyniaid Glas Môr y Gogledd ac Arfordir Gorllewin yr Alban | 2022 - 2024 | Chwitlyn Glas | Môr y Gogledd ac Arfordir Gorllewin yr Alban (4, 6) | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Marine Scotland (yr Alban) | |
| Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Penddu Ysgafell y Gogledd | 2022 - 2024 | Penddu | Ysgafell y Gogledd (4, 6, 7a, 7d, 7e, 7h< 7g, 7j) | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Marine Scotland (yr Alban) | |
| Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Cythreuliaid Môr Môr y Gogledd ac Arfordir Gorllewin yr Alban | 2022 - 2024 | Cythraul y Môr | Môr y Gogledd ac Arfordir Gorllewin yr Alban (4, 6) | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Marine Scotland (yr Alban) | |
| Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Lledod Mair Môr y Gogledd ac Arfordir Gorllewin yr Alban | 2022 - 2024 | Lleden Fair | Môr y Gogledd ac Arfordir Gorllewin yr Alban (4a, 6) | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Marine Scotland (yr Alban) | |
| Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Honosiaid Ysgafell y Gogledd | 2022 - 2024 | Honos | Ysgafell y Gogledd (Dyfroedd y DU 2a, 4a, 5b, 6) | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Marine Scotland (yr Alban) | |
| Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Cimychiaid Norwy Môr y Gogledd | 2022 - 2024 | Cimwch Norwy | Môr y Gogledd (4) | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Marine Scotland (yr Alban) | |
| Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Cimychiaid Norwy Arfordir Gorllewin yr Alban | 2022 - 2024 | Cimwch Norwy | Arfordir Gorllewin yr Alban (6) | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Marine Scotland (yr Alban) | |
| Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Mecryll Ysgafell y Gogledd | 2022 - 2024 | Mecryll | Ysgafell y Gogledd (Dyfroedd y DU 2a, 4, 5b, 6, 7a 7d, 7e, 7h, 7g,) | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Marine Scotland (yr Alban) | |
| Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Sgadan/Penwaig Iwerydd/Sgandinafia | 2022 - 2024 | Sgadan/Penwaig | Môr y Gogledd a’r Arctig (4a; Dyfroedd y DU 2a) | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Marine Scotland (yr Alban) | |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Sgadan/Penwaig Môr y Gogledd | 2022 - 2024 | Sgadan/Penwaig | Môr y Gogledd a Dwyrain y Sianel (4, 7d) | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Marine Scotland (yr Alban) | |
| Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Sgadan/Penwaig Arfordir Gorllewin yr Alban (a Clyde) | 2022 - 2024 | Sgadan/Penwaig | Arfordir Gorllewin yr Alban (5b, 6) | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Marine Scotland (yr Alban) | |
| Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Pysgod Arian Mawr Môr y Gogledd | 2022 - 2024 | Pysgodyn Arian Mawr | Môr y Gogledd (2a, 4) | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Marine Scotland (yr Alban) | |
| Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Pysgod Arian Mawr Arfordir Gorllewin yr Alban | 2022 - 2024 | Pysgodyn Arian Mawr | Arfordir Gorllewin yr Alban (5b, 6a) | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Marine Scotland (yr Alban) | |
| Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Swtanod Glas Ysgafell y Gogledd | 2022 - 2024 | Swtan Glas | Ysgafell y Gogledd (Dyfroedd y DU 2a, 4, 5b, 6, 7a 7d, 7e, 7h, 7g, 7j, Dyfroedd y DU 12b) | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Marine Scotland (yr Alban) | |
| Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Draenogiaid Môr | 2022 - 2024 | Draenog y Môr | Dyfroedd Cymru a Lloegr (4b, 4c, 6a, 7a, 7d, 7e, 7f, 7h, 7g, 7j) | Ydy | | Ydy | | Ydy | Defra (Lloegr) | |
| Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Cocos | 2022-2024 | Cocos | Dyfroedd Lloegr (4b, 4c, 7a, 7d, 7e, 7f, 7h, 7g, 7j) | Na | | | | | Defra (Lloegr) | Yn ymwneud â dyfroedd yr awdurdod yn unig |
| Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Cocos | 2022-2028 | Cocos | Dyfroedd Cymru (7a, 7g, 7f) | Na | | | | | Llywodraeth Cymru | Yn ymwneud â dyfroedd yr awdurdod yn unig |
| Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Crancod a Chimychiaid | 2021-2023 | Crancod, Cimychiaid | Dyfroedd Lloegr (4b, 4c, 7a, 7d, 7e, 7f, 7h, 7g, 7j) | Na | | | | | Defra (Lloegr) | Yn ymwneud â dyfroedd yr awdurdod yn unig |
| Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Crancod a Chimychiaid | 2022-2026 | Crancod, Cimychiaid | Dyfroedd Cymru (7a, 7g, 7f) | Na | | | | | Llywodraeth Cymru | Yn ymwneud â dyfroedd yr awdurdod yn unig |
| Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Cregyn y Brenin | 2021-2023 | Cregyn y Brenin | Dyfroedd Cymru a Lloegr (4b, 4c, 7a, 7d, 7e, 7f, 7h, 7g, 7j) | Ydy | | Ydy | | Ydy | Defra (Lloegr) | |
| Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Cregyn Moch yn nyfroedd Lloegr | 2021-2023 | Cregyn y Moch | Dyfroedd Lloegr (4b, 4c, 7a, 7d, 7e, 7f, 7h, 7g, 7j) | Na | | | | | Defra (Lloegr) | Yn ymwneud â dyfroedd yr awdurdod yn unig |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Cregyn Moch yn nyfroedd Cymru | 2022-2027 | Cregyn y Moch | Dyfroedd Cymru (7a, 7g, 7f) | Na | | | | | Llywodraeth Cymru | Yn ymwneud â dyfroedd yr awdurdod yn unig |
| Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Cregyn y Frenhines | 2023-2024 | Cregyn y Frenhines | Dyfroedd Lloegr (4b, 4c, 7a, 7d, 7e, 7f, 7h, 7g, 7j) | Na | | | | | Defra (Lloegr) | Yn ymwneud â dyfroedd yr awdurdod yn unig |
| Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Dyfnforol Môr Iwerddon | 2022-2024 | Lleden goch, penfras, hadog, lleden chwythig, gwyniad môr, cimwch Norwy | Môr Iwerddon (7a dyfroedd Gogledd Iwerddon, Cymru a Lloegr yn unig) | Ydy | Ydy | Ydy | | Ydy | DAERA (Gogledd Iwerddon) | |
| Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Pelagig Môr Iwerddon | 2022-2023 | Sgadan/Penwaig | Môr Iwerddon (7a dyfroedd Gogledd Iwerddon, Cymru a Lloegr yn unig) | Ydy | Ydy | Ydy | | Ydy | DAERA (Gogledd Iwerddon) | |
| Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Glannau Gogledd Iwerddon | 2022-2024 | Cranc coch, cranc llygatgoch, cimwch, cregyn y brenin a chregyn y frenhines | Y Glannau ym Mharth Gogledd Iwerddon (7a, 6a) | Na | | | | | DAERA (Gogledd Iwerddon) | Yn ymwneud â dyfroedd yr awdurdod yn unig |
| Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Dyfnforol y Môr Celtaidd a Gorllewin y Sianel | 2023-2025 | Cythraul y môr, penfras, hadog, lleden goch, morgath ddreiniog, lleden chwythig, honos glas, siarcod y dyfnfor, chwitlyn glas, morgath lygaid-bach, grenadwr trwyngrwn, merfog coch, morgathod, morgath gribog, morgath felen, morgath gron, morgath fannog, morgath lygadog, lleden Fair, lleden fair bedwar smotyn, morlas, cimwch Norwy, gwyniad môr | Y Môr Celtaidd a Gorllewin Sianel Lloegr (7e, 7f, 7g, 7h dyfroedd Cymru a Lloegr yn unig) | Ydy | | Ydy | | Ydy | Defra (Lloegr) | |
| Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Pelagig y Môr Celtaidd a Gorllewin y Sianel | 2023-2025 | Sgadan/penwaig, pennog Mair, pysgodyn arian mawr, marchfacrell, brwyniad | Y Môr Celtaidd a Gorllewin Sianel Lloegr (7e, 7f, 7g, 7h dyfroedd Cymru a Lloegr yn unig) | Ydy | | Ydy | | Ydy | Defra (Lloegr) | |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Lledood cymysg De Môr y Gogledd a Dwyrain y Sianel | 2021-2024 | Lleden goch, torbwt, lleden wrachwitch Lleden fannog, lleden lefn, lleden chwythig, lleden dywod, lleden fwd, lleden Ffrengig | De Môr y Gogledd a Dwyrain y Sianel (4b, 4c, 7d) | Na | | | | | Defra (Lloegr) | Yn ymwneud â dyfroedd yr awdurdod yn unig |
| Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Marchfecryll Môr y Gogledd | 2022-2024 | Marchfacrell | Môr y Gogledd a Dwyrain y Sianel (4, 7d) | Na | | | | | Marine Scotland (yr Alban) | |
| Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Corbenwaig Môr y Gogledd a Sianel Lloegr | 2022-2024 | Corbennog | Môr y Gogledd a Sianel Lloegr (4, 7d, 7e) | Na | | | | | Defra (Lloegr) | |
| Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Merfog Du | 2023-2025 | Merfog Du | Dyfroedd Lloegr (4b, 4c, 7a, 7d, 7e, 7f, 7h, 7g, 7j) | Na | | | | | Defra (Lloegr) | Yn ymwneud â dyfroedd yr awdurdod yn unig |
| Cynllun Rheoli Pysgodfeydd rhywogaethau Gwrachod | 2023-2025 | Gwrachen Fair, cleiriach y gwymon, grŵp rhywogaethau'r gwrachod, gwrachen eurben, gwrachen y graig | Dyfroedd Lloegr (4b, 4c, 7a, 7d, 7e, 7f, 7h, 7g, 7j) | Na | | | | | Defra (Lloegr) | Yn ymwneud â dyfroedd yr awdurdod yn unig |
| Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Dyfnforol Heb Gwota De Môr y Gogledd | 2023-2024 | Chwyrnwr coch, ysgyfarnog fôr (tub gurnards), ystifflog, môr-lawes, octopws, pysgodyn darn arian, mingrwn coch, morgi lleiaf, chwyrnwr llwyd | De Môr y Gogledd (4b, 4c, dyfroedd Lloegr yn unig) | Na | | | | | Defra (Lloegr) | Yn ymwneud â dyfroedd yr awdurdod yn unig |
| Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Dyfnforol Heb Gwota'r Sianel | 2022-2023 | Chwyrnwr coch, ysgyfarnog fôr (tub gurnards), ystifflog, môr-lawes, octopws, pysgodyn darn arian, mingrwn coch, morgi lleiaf, chwyrnwr llwyd, lleden lefn, lleden fannog, morgi llyfn, codyn llwyd, torbwt | Sianel Lloegr (7d, 7e) | Na | | | | | Defra (Lloegr) | Yn ymwneud â dyfroedd yr awdurdod yn unig |
| Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Morgathod De Môr y Gogledd a'r Sianel | 2023-2024 | Morgath ddreiniog, morgath felen, morgath donnog, morgathod, morgath lygaid-bach, morgath fannog, | De Môr y Gogledd a Sianel Lloegr 4b, 4c, 7d, 7e – dyfroedd Lloegr yn unig) | Na | | | | | Defra (Lloegr) | Yn ymwneud â dyfroedd yr awdurdod yn unig |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | morgath lygadog, morgath bigog | | | | | | | | |

# Atodiad B: Geirfa

**Adleoli**

Y newidiadau mewn ymddygiad a phatrymau pysgota a allai ddigwydd mewn ymateb i fesurau rheoli newydd a defnydd gofodol arall gan gynnwys ffermydd gwynt yn y môr.

**Amgylchedd y môr a’r dŵr**

yn cynnwys (a) harddwch neu amwynder naturiol y môr neu ardaloedd arfordirol, neu ddyfroedd ar y tir a neu ardaloedd glan dŵr, (b) nodweddion o ddiddordeb archeolegol neu hanesyddol yn yr ardaloedd hynny, ac (c) y fflora a’r ffawna sy’n dibynnu ar amgylchedd y môr neu’r arfordir neu’r dŵr neu lan dŵr, neu sy’n gysylltiedig â’r amgylchedd hwnnw

**Ansawdd dŵr**

Ffordd o fesur cyflwr dŵr ac a yw’n addas i gynnal amrywiaeth o fathau o ddefnydd er budd organeddau byw a phobl.

**Ar y môr**

Rhwng 12 a 200 milltir forol o linellau sylfaen môr tiriogaethol y DU.

**Arallgyfeirio**

Mae arallgyfeirio ym maes pysgodfeydd yn ffordd o helpu i ymaddasu i newid ac mae'n un ffordd i’r diwydiant pysgota fod yn fwy cynaliadwy, i ymateb yn well wrth i farchnadoedd newid, ac i fod yn fwy abl i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd. Mae arallgyfeirio'n cynnwys newidiadau o fewn y sector pysgota, er enghraifft, technegau ac offer pysgota newydd sy'n newid pa rywogaethau sy'n cael eu targedu a sut maen nhw’n cael eu targedu, neu newidiadau yn y gadwyn brosesu a’r gadwyn gwerth pysgod, er enghraifft, gwerthu’n uniongyrchol neu farchnata sy'n ychwanegu gwerth at gynhyrchion pysgod. Mae arallgyfeirio hefyd yn golygu bod y diwydiant yn ymgymryd â sawl math o weithgaredd; er enghraifft, yn ogystal â chreu incwm drwy bysgota, gall gweithgareddau ategol fel twristiaeth olygu bod cychod yn arallgyfeirio i sectorau eraill, os yw hynny’n briodol.

**Ardaloedd Morol Gwarchodedig (MPAau)**

Ardaloedd o'r môr sy’n cael eu gwarchod gan y gyfraith at ddibenion cadwraeth natur.

**Arloesi**

Creu dull, syniad neu gynnyrch newydd.

**Awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol**

Fel y'u diffinnir gan adran 25(4) o Ddeddf Pysgodfeydd 2020: (a) yr Ysgrifennydd Gwladol, (b) y Sefydliad Rheoli Morol, (c) Gweinidogion yr Alban, (d) Gweinidogion Cymru, ac (e) adran Gogledd Iwerddon. Mae'r term awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol yn wahanol i'r term awdurdodau polisïau pysgodfeydd oherwydd ei fod yn cynnwys y Sefydliad Rheoli Morol.

**Awdurdodau Pysgodfeydd y Glannau a Chadwraeth (IFCAau)**

Ardaloedd Awdurdodau Pysgodfeydd y Glannau a Chadwraeth sy'n gyfrifol am reoli gweithgareddau pysgota yn nyfroedd arfordirol Lloegr hyd at 6 milltir forol o linellau sylfaen y môr tiriogaethol. Mae gan y 10 ardal 'weledigaeth' gyffredin; sef arwain, hyrwyddo a rheoli amgylchedd morol cynaliadwy a physgodfeydd y glannau.

**Awdurdodau polisi pysgodfeydd**

Fel y'u diffinnir gan adran 52 o Ddeddf Pysgodfeydd 2020, yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yw (a) yr Ysgrifennydd Gwladol, (b) Gweinidogion yr Alban, (c) Gweinidogion Cymru, a (d) adran Gogledd Iwerddon.

**Bioamrywiaeth**

Amrywiaeth yr holl fywyd ar y ddaear, gan gynnwys yr amrywiaeth o fewn a rhwng yr holl rywogaethau planhigion ac anifeiliaid, ac amrywiaeth ecosystemau.

**Carbon glas**

Carbon sy'n cael ei ddal gan gefnforoedd ac ecosystemau arfordirol y byd. Cynefinoedd carbon glas yw'r cynefinoedd lle mae'n cael ei storio.

**Y Confensiwn ar Warchod Amgylchedd Morol Rhan Ogledd-ddwyreiniol yr Iwerydd (OSPAR)**

Cytundeb rhyngwladol er mwyn cydweithredu i ddiogelu amgylchedd morol Gogledd-ddwyrain yr Iwerydd. Caiff gwaith o dan y Confensiwn ei reoli gan Gomisiwn OSPAR, sy'n cynnwys cynrychiolwyr Llywodraethau 15 o'r Partïon i'r Contract a'r Comisiwn Ewropeaidd, sy'n cynrychioli'r Undeb Ewropeaidd. Mae gwaith i weithredu Confensiwn OSPAR yn cael ei wneud drwy fabwysiadu penderfyniadau, sy'n gyfreithiol rwymol ar y Partïon i'r Contract, a thrwy fabwysiadu argymhellion a chytundebau eraill.

**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Fioamrywiaeth (CBD)**

Yr offeryn cyfreithiol rhyngwladol i warchod amrywiaeth fiolegol, defnyddio ei rhannau'n gynaliadwy a rhannu'r manteision a ddaw o ddefnyddio adnoddau genetig yn deg a chydradd.  Mae'r fframwaith bioamrywiaeth rhyngwladol ar ôl 2020, sy'n cynnwys y targedau a'r amcanion rhyngwladol diweddaraf, yn destun trafod ar hyn o bryd a chytunir arnynt ym mhymthegfed Cynhadledd y Partïon (COP15) i'r CPD ym mis Rhagfyr 2022.

**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr (UNCLOS)**

Cytundeb rhyngwladol amlochrog sy'n gosod cyfundrefn gynhwysfawr o gyfraith a threfn yng nghefnforoedd a moroedd y byd, gan sefydlu rheolau sy'n llywodraethu pob defnydd a wneir o'r cefnforoedd a'u hadnoddau. Fe'i llofnodwyd ym 1982 a daeth i rym ym 1994.

**Y Cyd-ddatganiad ar Bysgodfeydd (JFS)**

Fel y'i diffinnir yn adran 2(1) o Ddeddf Pysgodfeydd 2020, dogfen sy'n amlinellu polisïau'r awdurdodau polisi pysgodfeydd ar gyfer cyflawni, neu gyfrannu at gyflawni, yr amcanion ar gyfer pysgodfeydd yn Neddf Pysgodfeydd 2020.

**Cydfodoli**

Lle mae llawer o ddatblygiadau, gweithgareddau neu fathau o ddefnydd yn digwydd ochr yn ochr â'i gilydd neu'n agos at ei gilydd yn yr un ardal neu ar yr un pryd.

**Cydnerthedd**

Gallu ecosystem, rhywogaeth, cynefin neu ddiwydiant i ymateb, adfer neu ymaddasu i newidiadau a/neu unrhyw aflonyddwch o fewn amserlen resymol heb golled neu ddifrod parhaol.

**Cyfalaf naturiol**

Yr elfennau o natur sy'n creu gwerth i bobl, er enghraifft, ecosystemau, rhywogaethau, dŵr croyw, tir, priddoedd, mwynau, ein hawyr a'n moroedd. Mae 'dull cyfalaf naturiol' yn un sy'n gwerthfawrogi'r manteision a gawn o'r amgylchedd naturiol, megis darparu bwyd, aer a dŵr glân, amddiffyn rhag llifogydd, a chyfleoedd i hamddena, gan gynnwys gwerthfawrogi bywyd gwyllt, sy'n cefnogi iechyd a lles.

**Cyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr (ICES)**

Mae'n cydgysylltu ac yn hyrwyddo ymchwil forol ar eigioneg, yr amgylchedd morol, yr ecosystem forol, ac ar adnoddau morol byw yng Ngogledd yr Iwerydd.

**Cynllun Rheoli Pysgodfeydd (FMP)**

Dogfen, a baratowyd ac a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf Pysgodfeydd, sy'n amlinellu polisïau y bwriedir iddynt adfer un neu fwy o stociau pysgod môr i lefelau cynaliadwy, neu eu cynnal ar lefelau cynaliadwy.

**Cynlluniau amlflwydd (MAPs)**

Cynlluniau o dan Bolisi Pysgodfeydd Cyffredin yr UE (sydd bellach, i ryw raddau, yn rhan o gyfraith y DU ar ffurf cyfraith yr UE a ddargedwir) ar gyfer stociau pysgod a physgodfeydd pwysig sy'n pennu nodau ar gyfer rheoli stoc pysgod dros gyfnod o flynyddoedd. Gallant hefyd gynnwys rheolau penodol eraill ar gadwraeth.

**Cynlluniau Gofodol Morol (MSP)**

Cynlluniau morol ar sail ardal yn unol â Datganiad Polisi Morol y DU. Cyfeirir atynt yn aml fel cynlluniau morol.

**Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf (MSY)**

Diffinnir yn Neddf Pysgodfeydd 2020 fel y cynnyrch cytbwys damcaniaethol uchaf y gellir, ar gyfartaledd, ei gymryd yn barhaus o stoc forol o dan yr amodau amgylcheddol presennol heb effeithio'n sylweddol ar y broses atgynhyrchu.

**Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu (TCA)**

Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon, ar y naill law, a'r Undeb Ewropeaidd a Chymuned Ynni Atomig Ewropeaidd ar y llaw arall. Mae'r cytundeb hwn yn rheoli'r berthynas rhwng y DU a'r UE. Fe'i llofnodwyd ym mis Rhagfyr 2020, fe'i cymhwyswyd o 1 Ionawr 2021 ymlaen ac fe'i cadarnhawyd (ar ffurf y diwygiwyd ychydig arni) ym mis Ebrill 2021.

**Dalfa Fwyaf a Ganiateir (TAC)**

Mae cyfanswm y ddalfa a ganiateir (TAC) yn derfyn a bennir ar  gyfer pysgodfa neu stoc benodol, fel arfer am flwyddyn neu dymor pysgota. Fel rheol, mynegir TAC mewn tunelli o bwysau sy'n cyfateb i bwysau byw ond weithiau pennir nifer y pysgod.

**Datblygu cynaliadwy**

Fel y'i diffinnir gan adroddiad Brundtland (1987), ystyr datblygu cynaliadwy yw datblygu sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

**Datganiad Polisi Morol y DU (UKMPS)**

Fframwaith polisi'r DU ar gyfer paratoi cynlluniau morol a gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar yr amgylchedd morol yn y DU.

**Dyframaethu**

Fel y'i diffinnir gan Adran 52 o Ddeddf Pysgodfeydd 2020: bridio, magu, tyfu neu feithrin (a) unrhyw bysgod neu anifail dyfrol arall, (b) gwymon neu unrhyw blanhigyn dyfrol arall, neu (c) unrhyw organedd dyfrol arall.

**Y diwydiant pysgota**

Y gweithgareddau economaidd sy'n gysylltiedig â dal pysgod am fwyd neu ym maes chwaraeon.

**Ecosystem**

Cymuned fiolegol sy'n cynnwys yr holl organeddau a'r amgylchedd ffisegol y maent yn rhyngweithio â nhw.

**Y glannau**

0-12 milltir forol o linellau sylfaen môr tiriogaethol y DU.

**Gwasanaethau ecosystemau**

Y manteision y mae pobl yn eu cael oddi wrth ecosystemau. Mae gwasanaethau ecosystemau yn cael eu categoreiddio fel a ganlyn o dan Ddull Cenedlaethol y DU o Reoli ar Lefel yr Ecosystem: gwasanaethau rheoli, gwasanaethau darparu, gwasanaethau diwylliannol a gwasanaethau cynnal.

**Gweithgareddau dyframaethu**

Fel y'u diffinnir gan adran 52 o Ddeddf Pysgodfeydd 2020, mae'n golygu unrhyw un o'r canlynol (p'un a ydynt yn gysylltiedig â busnes neu gyflogaeth ai peidio): (a) dyframaethu; (b) cynaeafu organeddau dyframaethu; (c) gweithredu llongau er mwyn cynaeafu neu brosesu organeddau dyframaethu; (d) storio neu gludo organeddau dyframaethu; (e) llwytho a dadlwytho organeddau dyframaethu; (f) prosesu organeddau dyframaethu.

**Gweithgareddau pysgota**

Fel y'i diffinnir yn adran 52 o Ddeddf Pysgodfeydd 2020, mae'n golygu unrhyw un o'r canlynol (wrth gynnal busnes neu gyflogaeth neu fel arall): (a) dal pysgod; (b) gweithredu cychod ar gyfer dal neu brosesu pysgod; (c) cludo pysgod neu gynnyrch pysgod; (d) llwytho neu ddadlwytho pysgod neu gynnyrch pysgod; (e) prosesu pysgod.

**Gweoedd bwyd**

Y rhyng-gysylltiad naturiol rhwng cadwyni bwyd a chynrychiolaeth graffigol o beth sy'n bwyta beth mewn cymuned ecolegol.

**Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar y Fframwaith ar gyfer Rheoli a Chefnogi Pysgodfeydd (MoU ar y Fframwaith Pysgodfeydd neu FFMoU)**

Cytundeb rhwng pedair gweinyddiaeth y DU sy'n nodi'r egwyddorion y bydd y pedwar awdurdod polisi pysgodfeydd yn cydweithio yn unol â nhw wrth reoli pysgodfeydd. Mae'n cynnwys strwythurau llywodraethu a ffyrdd o weithio. Mae'n rhan o Fframwaith Rheoli a Chefnogi Pysgodfeydd y DU (y Fframwaith Pysgodfeydd).

**Monitro Electronig o Bell (REM)**

Systemau integredig ar fwrdd y cwch a all gynnwys camerâu, synwyryddion offer, cyfarpar storio fideos, ac unedau System Leoli Fyd-eang, sy'n creu fideos cynhwysfawr ac sy’n cael eu defnyddio i fonitro gweithgareddau pysgota gan ddefnyddio gwybodaeth gysylltiedig a gesglir gan synwyryddion a gwybodaeth am leoliad.

**Môr tiriogaethol**

Y dyfroedd sydd o dan awdurdodaeth gwladwriaeth, a ddiffinnir gan UNCLOS fel hyd at 12 milltir forol o’r llinell sylfaen neu’r llinell distyll ar hyd yr arfordir.

**Newid yn yr hinsawdd**

Mae’n cyfeirio at newid yn yr hinsawdd a achosir gan bobl ac allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae'n cynnwys cynhesu byd-eang, cefnforoedd yn cynhesu, mwy o berygl llifogydd, sychder a thywydd poeth.

**Nodau Datblygu Cynaliadwy’r Cenhedloedd Unedig**

17 o nodau gan y Cenhedloedd Unedig 'i drawsnewid ein byd' ac i hyrwyddo ffyniant, gan ddiogelu'r blaned ar yr un pryd. Nod 14 yw gwarchod a defnyddio'r cefnforoedd, y moroedd ac adnoddau morol mewn ffordd gynaliadwy fel y bo modd datblygu’n gynaliadwy.

**Parth Economaidd Neilltuedig (EEZ)**

Parth economaidd unigryw mewn parth yn y môr y darperir ar ei gyfer gan UNCLOS, sy'n ymestyn hyd at 200 milltir forol o linellau sylfaen môr tiriogaethol Gwladwriaeth arfordirol, ac y mae gan y Wladwriaeth honno hawliau arbennig drostynt o ran manteisio ar adnoddau naturiol a'u rheoli, gan gynnwys pysgodfeydd.

**Prosesu**

Fel y’i diffinnir gan adran 52 o Ddeddf Pysgodfeydd 2020: Mewn perthynas â physgod neu unrhyw organeddau dyfrol arall, mae'n cynnwys cadw neu baratoi'r organeddau, neu gynhyrchu unrhyw sylweddau neu eitemau ohonynt gan ddefnyddio unrhyw ddull, er mwyn iddynt gael eu bwyta gan bobl neu anifeiliaid.

**Protocol Gogledd Iwerddon**

Cytundeb rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd (UE) sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer mynd i'r afael â'r amgylchiadau unigryw ar ynys Iwerddon, a gyflwynwyd yn sgil ymadawiad y DU â'r UE.

**Pwyllgor Arbenigol ar Bysgodfeydd (SCF)**

Fforwm ar y cyd rhwng y DU a'r UE ar gyfer trafod materion pysgodfeydd o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

**Pysgod**

Pysgod asgellog a physgod cregyn morol ac aberol, gan gynnwys rhywogaethau mudol fel llyswennod ac eogiaid.

**Pysgod cregyn**

Fel y'u diffinnir yn adran 52 o Ddeddf Pysgodfeydd (2020), mae pysgod cregyn yn cynnwys molysgiaid a chramenogion o unrhyw fath a geir yn y môr neu ddŵr mewndirol.

**Pysgodfeydd**

Dal organeddau morol gwyllt (pysgod a physgod cregyn) at ddibenion masnachol neu hamdden; gall pysgota masnachol ddefnyddio amrywiaeth o offer symudol a sefydlog, cychod a lleoliadau.

**Pysgota cynaliadwy**

Yn y Cyd-ddatganiad ar Bysgodfeydd, mae pysgota cynaliadwy yn golygu cadw'r ddysgl yn wastad rhwng ystyriaethau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol wrth reoli'n pysgodfeydd er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae'n golygu sicrhau bod modd pysgota stociau pysgod, yn fasnachol ac yn hamddenol, yn awr ac yn y dyfodol. Wrth wneud hynny, bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn ystyried yn ofalus effeithiau tymor byr a hirdymor eu penderfyniadau ar stociau pysgod a'r diwydiant pysgota cyn gweithredu; ni ddylai penderfyniadau economaidd-gymdeithasol tymor byr beryglu iechyd hirdymor yr amgylchedd morol mewn ffordd arwyddocaol. Bydd angen i'r penderfyniadau hynny gydnabod pwysigrwydd diwylliannol pysgota drwy gynnal a, phan fo hynny'n bosibl, gryfhau cymunedau arfordirol a bywoliaeth pobl. Bydd angen hefyd fodloni'r gofyniad i sicrhau bod stociau pysgod yn cyrraedd lefelau cynaliadwy a bod y lefelau hynny'n cael eu cynnal.

**Pysgota hamdden ar y môr**

Term ymbarél sy'n cwmpasu amrywiaeth o weithgareddau hamdden, gan gynnwys pysgota hamdden ar y môr gan ddefnyddio gwialenni neu rwydi, a chychod siarter.

**Pysgotwr**

Person sy'n dal pysgod er mwyn gwneud bywoliaeth neu at ddibenion hamdden.

**Rheoli ar sail ecosystem**

Diffinnir yn adran 1(1) o Ddeddf Pysgodfeydd 2020 fel gweithredu mewn ffordd sydd (a) yn sicrhau bod yr holl bwysau a achosir gan weithgareddau pobl yn cael ei gadw o fewn lefelau sy'n gydnaws â sicrhau statws amgylcheddol da (yn unol â’r ystyr sydd iddo yn Rheoliadau’r Strategaeth Forol 2010 (O.S. 2010/1627)), a (b) nad yw'n peryglu gallu ecosystemau morol i ymateb i newidiadau a achosir gan bobl.

**Rheoli pysgodfeydd yn rhagofalus**

Fe’i diffinnir yn adran 1(10) o Ddeddf Pysgodfeydd 2020 fel dull rheoli lle nad yw’r ffaith nad oes digon o wybodaeth wyddonol ar gael yn gyfiawnhad dros ohirio neu beidio â chymryd camau rheoli i warchod rhywogaethau targed, rhywogaethau cysylltiedig neu ddibynnol, rhywogaethau nad ydynt yn rhai targed, neu eu hamgylchedd.

**Rhywogaethau prae**

Rhywogaethau bach sy’n bwyta plancton, a geir ar lefelau troffig canolradd mewn cadwyni bwyd morol, sy'n brae i bysgod ysglyfaethus mwy o faint. Fe'i gelwir hefyd yn bysgod prae neu’n bysgod abwyd.

**Rhywogaethau sensitif**

Fel y’i diffinnir yn adran 52 o Ddeddf Pysgodfeydd 2020, mae rhywogaethau sensitif yn golygu: (a) unrhyw rywogaeth o anifail neu blanhigyn a restrir yn Atodiad II neu IV o Gyfarwyddeb 92/43/EEC Cyngor Cymunedau Ewrop ynghylch cadwraeth cynefinoedd naturiol a fflora a ffawna gwyllt (fel y’i diwygir o dro i dro), (b) unrhyw rywogaeth anifail neu blanhigyn arall, heblaw am rywogaeth o bysgod, y cafodd pysgota neu weithgarwch dynol arall effaith andwyol ar ei chynefin, ei gwasgariad, maint ei phoblogaeth neu gyflwr ei phoblogaeth, neu 9c) unrhyw rywogaeth o aderyn.

**Sbwriel môr**

Unrhyw ddeunydd solet sydd wedi'i daflu'n fwriadol neu ei golli'n anfwriadol ar draethau, ar lannau neu ar y môr. Mae'r diffiniad yn cynnwys deunyddiau sy’n cael eu cludo o’r tir i'r amgylchedd morol gan afonydd, systemau draenio neu systemau carthion neu wyntoedd. Mae'n cynnwys unrhyw ddeunydd solet parhaus sydd wedi'i weithgynhyrchu neu ei brosesu (OSPAR).

**Y sectorau pysgota a dyframaethu**

Unigolion neu fusnesau sy'n ymgymryd ag unrhyw un o'r gweithgareddau a ganlyn: (a) dal pysgod; (b) gweithredu cychod ar gyfer dal neu brosesu pysgod; (c) ymgymryd â gweithgareddau dyframaethu (d) cludo pysgod neu gynhyrchion pysgod; (e) llwytho a dadlwytho pysgod neu gynhyrchion pysgod; (f) prosesu pysgod.

**Y Sefydliad Rheoli Morol (MMO)**

Corff cyhoeddus anadrannol gweithredol yn y Deyrnas Unedig a sefydlwyd o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, sy'n gyfrifol am gynllunio a thrwyddedu gweithgareddau yn nyfroedd Lloegr rhwng 0-200 milltir forol, heblaw gweithgareddau pysgodfeydd o fewn 0-6 milltir forol. Yr IFCAs sy'n gyfrifol amdanyn nhw. Mae gan y Sefydliad rai cyfrifoldebau ar lefel y DU hefyd.

**Sefydliad Rheoli Pysgodfeydd Rhanbarthol (RFMO)**

Corff neu gytundeb rhyngwladol amlochrog a sefydlwyd i reoli a gwarchod stociau pysgod mewn rhanbarth penodol.

**Sgil-ddalfa**

Diffinir yn adran 52 o Ddeddf Pysgodfeydd 2020 i olygu (a) pysgod sy'n cael eu dal wrth bysgota am bysgod o ddisgrifiad gwahanol, neu (b) anifeiliaid heblaw pysgod sy'n cael eu dal wrth bysgota.

**Statws Amgylcheddol Da (GES)**

Disgrifiad ansoddol o gyflwr y moroedd y mae'n ofynnol, yn unol â Rheoliadau'r Strategaeth Forol 2010, i awdurdodau ei gyrraedd neu ei gynnal erbyn y flwyddyn 2020. Mae cyrraedd statws amgylcheddol da yn ymwneud â diogelu'r amgylchedd morol, ei atal rhag dirywio a'i adfer pan fo hynny'n ymarferol, gan ganiatáu defnydd cynaliadwy o adnoddau morol ar yr un pryd.

**Strategaeth Forol y DU (UKMPS)**

Strategaeth Forol y DU yw'r fframwaith ar gyfer rhoi polisi morol ar waith ar lefel y DU. Mae'n disgrifio sut y gwnawn ni wireddu'r weledigaeth o foroedd a chefnforoedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol a bioamrywiol.

**Stociau heb gwota**

Rhywogaethau nad ydynt yn cael eu rheoli drwy gyfanswm dalfeydd a ganiateir (terfynau cwota). Maent yn cynnwys rhai pysgod asgellog, y rhan fwyaf o rywogaethau pysgod cregyn masnachol, ac amryfal rywogaethau eraill.

**Tiriogaethau Dibynnol y Goron**

Awdurdodaethau hunanlywodraethol y Goron; Guernsey, Jersey ac Ynys Manaw.

**Tiriogaethau Tramor y DU**

Fe’u gelwir hefyd yn Diriogaethau Tramor Prydain. Mae 14 o diriogaethau sydd â chysylltiad cyfansoddiadol a hanesyddol â'r DU. Er nad ydynt yn rhan o'r DU, Brenhines Prydain yw pennaeth y wladwriaeth.

**Yr Undeb Ewropeaidd (UE)**

Undeb o 27 o aelod-wladwriaethau sydd wedi’u lleoli’n bennaf yn Ewrop.